# Y BIGWN

CYF. 33 RHIF 9 | Ionawr 2022 | *Papur Bro Dinbych* | *Pris £1*


# Dathlu a Chofio



Sêr yr ardal a fu'n canu yng nghyngerdd 'Nadolig Leah"




Lansio 'For your Tomorrow we gave our Today' gan Grðp Archif Cymunedol Dinbych—tudalen 24

# Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Bigwn



Dafydd Davies, Pennaeth newydd Ysgol Twm o'r Nant - tudalen 4



Ymddeoliad Mrs Meira Jones o Ysgol Twm o'r Nant—tudalen 18



Dathlu'r Flwyddyn Newydd yn Siberia—tudalen 12



'Men Who Sing' — tudalen 31



Llongyfarchiadau

Rydym yn falch o rannu'r newyddion fod Dewi Snelson wedi camu i gadeiryddiaeth Mentrau Iaith Cymru ers mis Tachwedd 2021. Bu'n is gadeirydd am y tair blynedd ddiwethaf. Mae Dewi yn Brif Swyddog Menter Gorllewin Sir Gaerfyrddin ers 2014 ac mae wedi gweithio i Fenter Iaith Môn cyn symud i Gaerfyrddin ble mae'n byw gyda'i wraig a thri o blant. Llongyfarchiadau, Dewi.



## Cyfarchion

Pen-blwydd hapus iawn i Mari a ddathlodd ei phen-blwydd yn 4 oed ar noswyl Nadolig. Pen-blwydd hapus hefyd i Ifan yn 8 oed Ionawr 12fed. Llawer o gariad oddi-wrth Mam a Dad a Nain a Taid.

Llongyfarchiadau hefyd i Mirain a Jack ar eu dyweddiad ddechrau Rhagfyr.

## RHESTR Y SWYDDOGION

CADEIRYDD
Stan Lyall 813659

SWYDDOG HYSBYSEBION
Nerys Ann Roberts
01745 814950

GOLYGYDDION:
Erfyl Williams (814832)
Ceredig Gwynn (815701)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)

YSGRIFENNYDD
Sian Rogers
siani77.sr@gmail.com

TRYSORYDD
Llifion Jones
Sŵn y Nant, 31 Y Maes,
Dinbych
LL16 3JR
llifionjones9@gmail.com

CARTWNYDD
Huw Vaughan Jones

DOSBARTHWYR
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

TEIPYDDION:
Rhian Williams (816251)
Gwenan Ellis (813106)

Ebost y Bigwn:
gwybod@ybigwn.cymru

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

'Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'

CYMRAEG

**Golygydd Mis Ionawr: Ceredig Gwynn**

# Gair gan y Golygydd

Sefydlwyd Urdd Gobaith Cymru gan Syr Ifan ab Owen Edwards ym 1922 er mwyn creu mudiad i amddiffyn y Gymraeg. Ymgeisiodd ei dad O.M. Edwards sefydlu mudiad ar gyfer ieuenctid Cymru sef ‘Urdd y Delyn’ ym 1896 a ‘Byddin Cymru’ ym 1911 ond ni fu un o’r ymdrechion hyn yn llwyddiant.
Ar farw O.M.Edwards ym 1920, Syr Ifan ddaeth yn olygydd cylchgrawn ‘Cymru’r Plant’ ac yn y cylchgrawn hwn ym 1922 yr apeliodd ar blant Cymru i ymuno â mudiad newydd sef ‘Urdd Gobaith Cymru Fach.’Erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf roedd 720 o enwau aelodau wedi ymddangos yn y cylchgrawn a channoedd mwy yn aros eu tro. Sefydlwyd Adran gyntaf yr Urdd yn Nhreuddyn, Sir Fflint ym 1922.
Ar y 25ain o Ionawr eleni fe fydd yr Urdd yn cychwyn blwyddyn gyffrous o ddathlu canmlwyddiant y mudiad. Fe fydd y dathliadau yn dechrau gyda Pharti Pen-blwydd mwyaf yn hanes y mudiad ar ddiwrnod Cariad @ Urdd.
Mae’r cyfnod ers mis Mawrth 2020 wedi bod y cyfnod mwyaf heriol yn hanes Yr Urdd a braf oedd clywed yn ddiweddar y bydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych yn cael ei chynnal o’r diwedd yn Ninbych (Mai 30ain – Meh. 4ydd 2022) gyda mynediad i’r maes yn rhad ac am ddim, diolch i Lywodraeth Cymru.

Pen-blwydd hapus i’r Urdd. Byddwn yn siwr o roi ein cefnogaeth i’r dathlu ac i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych eleni. Roedd Cyngerdd ’Nadolig Leah’ cyn y Dolig yn gychwyn bendigedig i holl weithgareddau 2022.

---

Enwau yn unig fu’r enwau ar y gofgolofn yn Sgwâr y Goron i’r dynion o’r dref a gollwyd yn y Rhyfel Mawr ac enwau’n unig fu’r enwau ar y plac ar y wal yng Nghapel y Fron i gofio’r chwe aelod o’r capel a syrthiodd yn y Rhyfel Mawr tan i mi ddarllen y llyfr,’For your Tomorrow we gave our Today’ sef teyrnged i’r arwyr o Ddinbych a gollwyd yn y Rhyfel Mawr. Mae rhan helaeth o’r llyfr yn olrhain hanes y mwyafrif o’r dynion ifanc a gollodd eu bywydau. Mae’n cynnwys eu cefndir teuluol, eu gwaith, ble roeddent yn byw a’u rhan yn y rhyfel. Collwyd dros 150 o ddynion o’r dref gydag o leiaf 35 ohonynt o Stryd Henllan.
Cynhyrchwyd y llyfr gan Grŵp Archif Cymunedol Dinbych ac mae’r gwirfoddolwyr prysur hyn wedi ymchwilio’n drwyadl i gefndir y dynion a gollwyd yn y Rhyfel Mawr.
Mae’r llyfr yn dysteb i ddioddefaint ac aberth gymaint o ddynion o’r dref a’r boen a ddioddefodd eu teuluoedd.
‘Collodd gwragedd eu gwŷr, rhieni eu meibion, plant eu tadau, plant eu brodyr a’r golled a deimlwyd gan y teulu estynedig gan gynnwys teidiau a neiniau, modrybedd ac ewythrod. Collwyd ffrindiau da a chyd-weithwyr ac fe gollodd y dref ddynion a fuasai wedi cyfrannu gymaint i’r gymuned.’ For your Tomorrow…t.7
Yn ôl Clwyd Wynne, ’Byddai teulu o Ddinbych yn derbyn y newyddion yr oeddynt ofn eu derbyn ar gyfartaledd o unwaith bob 10 diwrnod yn ystod 4 blynedd y gwrthdaro.’
I mi, bellach, pobol sy’n cael eu cofio nid enwau.
Mae mwy am y llyfr ar dudalen 24

---

Blwyddyn Newydd ddedwydd i chwi oll. Gobeithio y bydd 2022 yn flwyddyn well i bawb.
Diolch i bawb a gyfrannodd i’r rhifyn hwn, gan gynnwys y cyfrannwyr hynny sy’n byw y tu allan i Gymru.

Erfyl Williams

**Dyddiad cau'r BIGWN, mis Chwefror**
**Pob dim i fod yn cyrraedd e-bost Y Bigwn - ybigwn@hotmail.co.uk erbyn Ionawr 21**

sir ddinbych denbighshire
Yn gweithio i
gryfhau’r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o’r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

# Holi a Stilio yng nghwmni Dafydd Davies, Pennaeth newydd Ysgol Twm o'r Nant.

1.Sonia ychydig am dy gefndir.
Dwi wedi byw yn ardal Llansannan ers erioed! (ac eithrio 3 blynedd yn y Brifysgol!). Yn gyntaf ar fferm ger mynydd Hiraethog, Clytiau Gleision cyn symud i fferm Hendre Llan yng nghanol Llansannan. Dwi bellach yn byw tua 500 llath i ffwrdd o'r fferm (digon agos i fynd adre am swper bob hyn a hyn!) Fel mab ffarm, yn naturiol ffarmwr oeddwn i am fod ar ôl tyfu fyny (neu tyfu'n fawr)! Ond… ar ol mwynhau cyfnod o brofiad gwaith mewn ysgol gynradd (Bro Aled) tra yn y chweched dosbarth yn Ysgol y Creuddyn, penderfynais (gyda dipyn o berswad pennaeth blwyddyn y chweched!) fynd i astudio addysg gynradd ym Mhrifysgol Bangor (rhyddhad mawr i'n nhad gan nad oeddwn i yn fawr o ffarmwr!) Ers hyn dydw i heb ddifaru o gwbwl ac wedi mwynhau pob cam o fy ngyrfa a phob amser yn mwynhau yng nghwmni'r disgyblion. Cefais fy swydd dysgu cyntaf yn 2007 yn Ysgol Betws Gwerful Goch cyn symud ar ôl blwyddyn i Ysgol Twm o'r Nant. Ym Medi 2017 cefais fy mhenodi i fod yn bennaeth ar ffederasiwn ysgolion Betws Gwerful Goch a Bro Elwern a chefais bedair blynedd hapus iawn yno cyn dychwelyd mis Medi yma yn ôl i Ysgol Twm o'r Nant. Dwi wir yn teimlo'n ffodus fy mod wedi cael cyd-weithio gyda staff arbennig iawn drwy gydol fy ngyrfa ac wedi mwynhau tynnu coes a chael hwyl gyda phob un!

2. Sut wnest ti elwa o fod yn aelod o Fudiad y Ffermwyr Ifanc?
Dwi wedi elwa lot o fod yn aelod o Ffermwyr Ifanc Llansannan yn ogystal ag Aelwyd Bro Cernyw (tra oeddwn dal yn ddigon ifanc i fod yn aelod!). Dwi'n teimlo bod y ddau wedi rhoi cyfleoedd i mi ddatblygu llawer o sgiliau gwahanol. Mae'r ddau fudiad wedi rhoi llwyth o gyfleoedd i mi mewn sawl maes gwahanol a braf oedd cael blasu llwyddiant gyda'r ddau fudiad dros y blynyddoedd. Gan fy mod wedi elwa yn sylweddol o werthoedd diwylliannol y sefydliadau yma, gallaf werthfawrogi pwysigrwydd cyfleoedd allgyrsiol i ddatblygu pob disgybl i'w lawn botensial ac yn sicr mae hyn yn rhywbeth y byddaf yn parhau i gefnogi a hybu wrth ddychwelyd i Ysgol Twm o'r Nant.

3. Be sy'n arbennig yn dy olwg di am dref Dinbych?
Er bod Llansannan rhyw ddeg milltir o dair tref gyfagos sef Dinbych, Abergele a Llanrwst (Ond dipyn nes i'r nefoedd!) - Dinbych sydd wastad wedi bod yn 'Dre' i mi. Os yn piciad i dre, i Ddinbych rydw i'n mynd! Dwi'n teimlo bod cymeriad i'r dref gyda llu o adeiladau hanesyddol o gwmpas. Dwi'n grediniol ei bod yn bwysig i ni addysgu ein disgyblion o'r hanes sydd gennym ni yma yn Ninbych.

4. Beth ydi dy atgof cyntaf?
Mae gen i dipyn o atgofion melys o chwarae tu allan tra yn byw yn Clytiau Gleision. Ond un atgof sydd yn dod i'r cof ydi chwarae ar y beics tu allan o amgylch y fferm. Roedd gan fy chwaer ffrind gyda hi yn chwarae ar eu beics. Mae'n debyg mod i ychydig yn boen i'r ddwy ac yn eu dilyn ar fy meic (peth ola oedd fy chwaer ei angen oedd ei brawd bach yn spwylio'r hwyl) ac roedden nhw yn trio mynd a ngadal i ar ôl. Yn amlwg o fod y brawd bach, fe fyddai'r beic roeddwn i yn ei ddefnyddio wedi cael sawl perchennog (2 frawd a 1 chwaer!) o fy mlaen i ac erbyn i mi ddod yn hyderus i reidio beic doedd y brecs ddim yn gret…ac wrth drio mynd ar wib ar eu holau lawr ffordd disgynais yn glep. Be dwi'n gofio fwyaf am y digwyddiad oedd y siwrnai yn y car i'r ysbyty gan fod fy rhieni yn meddwl y byddwn angen pwythau a fy siwmper felen yn prysur droi yn un goch a fy chwaer a fy ffrind yn trio codi nghalon i (gan eu bod yn teimlo yn euog am wn i!!).

5. Pa dri lle sy'n bwysig ichdi?
1. Y 'Llan Siro' (Cae pêl-droed Llansannan a'r Red Lion ar ôl y gêm!)
2. Rhyd y Bedd – Ar ddiwrnod braf does nunlle gwell gyda'r bryniau yn adlewyrchu yn y llyn a'r lle yn dawel (fel y bedd!) … er gall fod yn reit llwm yno yn y gaeaf!
3. Adre gyda'r teulu! Pob amser yn mwynhau cael y teulu i gyd o amgylch y bwrdd (gan amlaf yn Bodegwyl – bynglo fy rhieni!) a chael pryd o fwyd!

6. Be sydd wedi achosi'r embaras mwyaf ichdi?
Tra yn bennaeth yn Ysgol Betws Gwerful Goch a Bro Elwern, byddwn yn mynd allan i chwarae gemau gyda'r disgyblion yn ystod amser chwarae! Yn ystod un amser cinio braf yn Ysgol Betws Gwerful Goch, pêl-droed oedd yn cael ei chwarae ar y cae, a dyma benderfynu, yn hytrach na bod yn ddyfarnwr, ymuno yn y gêm. Ges fy rhoi yn yr amddiffyn! Ac ella gan fy mod ar adegau 'chydig yn rhy gystadleuol … wrth ymestyn i drio stopio'r bêl fynd heibio, clywais fy nhrowsus yn rhwygo! Rhaid oedd mynd i'r siop agosaf oedd yn gwerthu trwsus sef siop Trefor Jones yn Rhuthun (Mae siopau trwsus eraill ar gael – rhagofn fy mod yn torri rheolau hysbysebu'r Bigwn!) Chware teg i'r ddynes oedd yn gweithio yno ar y diwrnod hwnnw. Llwyddodd i fy helpu ac i beidio chwerthin ar fy mhen am y mwyafrif o'r amser a ges i fwy o gyd-ymdeimlad ganddi na ches i fyth gan staff a disgyblion yr ysgolion! Byth ers hynny dwi'n cario trwsus sbar ym mwt y car rhagofn!

7. Beth sy'n mynd o dan dy groen?
Sŵn pobl eraill yn cnoi eu bwyd! Doedd o yn poeni dim arnai tan yn eithaf diweddar. Ar adegau (pan fyddai yn byta hefyd!) dydw i ddim yn ei glywed (o bosib gan fod fy sŵn byta i yn uwch), ond unwaith dwi'n clywed sŵn rhywun yn byta bwyd dwi'n


**MEIRION DAVIES A'I GWMNI**
**01745 812400**
**Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych**

* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

gwneud esgus ac yn gadael. Fedrai ddim anwybyddu'r sŵn a fedrai ddim parhau gyda sgwrs! Fyddai rhai sydd yn fy nabod yn synnu ella mod i yn gallu aros digon distaw am ddigon hir i allu clywed sŵn y cnoi!

8. Sut fyddi di'n treulio dy oriau hamdden?

Dwi'n mwynhau gwylio pêl-droed yn ystod fy amser hamdden ac yn cefnogi CPD Llansannan ar gae y Llan Siro yn aml ar brynhawn dydd Sadwrn ac yn mwynhau'r 'after match' hefyd. Dwi hefyd (er nad ydw i mor hapus i gyfaddau hyn yn gyhoeddus bellach!) yn gefnogwr o dîm Manchester United, ac wrth gwrs yn mwynhau gwylio Cymru yn chwarae pêl-droed a rygbi!

Un peth arall dwi'n mwynhau ei wneud yn ystod fy amser rhydd ydi mynd adre i helpu fy mrawd ar y ffarm (mae'n bosib y byddai o yn deud na mwy o hindrans na help ydw i!). Ond dwi dal yn mwynhau helpu (Chwarae Ffermio!) pan fedrai ac yn mwynhau gwneud rhywbeth hollol wahanol i'n swydd o ddydd i ddydd. Mae calendr y ffarm yn dilyn patrymau tebyg iawn i wyliau'r Ysgol sydd yn golygu fod gweithgarwch y fferm yn debyg yn ystod gwyliau o flwyddyn i flwyddyn! Ond rhaid i mi gyfaddau pan fyddai'n eistedd yn y swyddfa gynnes yn yr ysgol a'r glaw yn tasgu tu allan, dwi'n falch iawn o le ydw i!

9. Pa gyngor fuaset yn ei roi i Brif Weinidog Cymru?

I beidio dilyn ôl troed Prif Weinidog San Steffan! Yn amlwg fel pennaeth ar ysgol dwi fel llawer un arall yn y sector gyhoeddus wedi teimlo bod pwysau ar gyllidebau ysgol wedi achosi pryder mawr i ni. Mae'n bwysig i ni gofio ein bod yn delio â phlant a dyfodol y plant yma. Dim ond unwaith da ni'n ifanc ac mae'n allweddol ein bod yn cael yr addysg yn iawn ac yn rhoi'r cyfleoedd gorau posib i bob un plentyn yn ein gofal. Allwn ni ddim parhau i wynebu toriadau byth a beunydd.

10. Pa fath o raglenni teledu a radio sy'n rhoi'r pleser mwyaf ichdi?

Podlediadau dwi'n mwynhau gwrando arnyn nhw yn bennaf! Mwynhau podlediadau digrifwyr enwog a rhai chwaraeon - mae 'Y coridor ansicrwydd' yn un da! Fel rheol Radio Cymru ar ffordd i mewn i'r gwaith i gael clywed be sy'n digwydd yn y byd ac wedyn podlediad ar y ffordd adre! Prin fyddai'n gwylio teledu byw (onibai am gemau pêl-droed a rygbi) ond mi fyddai'n mwynhau gwylio cyfresi o bryd i'w gilydd.

11. Oes llyfr wrth erchwyn y gwely ar hyn o bryd?

Mae'n siwr y dyliwn i ddeud bod y Cwricwlwm i Gymru wedi ei argraffu ar y bwrdd bach ger y gwely … ond na dydw i ddim yng nghanol llyfr ar hyn o bryd! Pan fyddai'n darllen, llyfrau hunangofiant fyddwn i yn dueddol o ddewis a rheini gan amlaf yn ddigrifwyr neu yn gyn-chwaraewyr pêl- droed. Dwi hefyd yn mwynhau edrych drwy catalogue 'screw fix' a chwilio am dwls newydd!!

12. Oes gen ti gynlluniau ar gyfer 2022?

Mae hi wedi bod yn gyfnod rhyfedd iawn dros (bron) y ddwy flynedd diwethaf gyda swp o gynlluniau yn gorfod cael eu gohirio. Mae'r afiechyd yma wedi gorfodi ni i edrych yn nes at adre ar gyfer gwyliau a dwi wedi mwynhau cael gweld mwy o Gymru. Haf dwytha fues i yng nghanolbarth Cymru a chael mynd i Bontarfynach am y tro cyntaf. Da ni'n lwcus iawn o'r wlad dda ni'n byw ynddi! Er hyn faswn i yn licio cael mynd dros môr ar wyliau unwaith eto gan fynd i weld lleoliadau hanesyddol pwysig. Ond nai ddim codi fy ngobeithion!

13. Be ydi dy hoff air?

Parch


# Bombolene



"Bombolone". Dyna i chi air sy'n werth ei ynganu! Gwell fyth ydi ei fwyta! Math o doesen neu doughnut Eidaleg yw, yn feddal, yn gynnes ac yn llawn hufen melyn yn llifo o'r canol. Yn ôl y sôn, mae'r enw'n dod o'i siap sy'n debyg i fom llaw, ond mwy na thebyg, mae'n adlewyrchu'r caloriau sydd ynddo. Bendigedig!


Yn wahanol i'r Nadolig sy'n cael ei ddathlu gyda'r teulu Noswyl y 24ain, does ddim traddodiad arbennig i groesawu'r flwyddyn newydd yn Yr Eidal. Cyfle i fynd allan i ddathlu gyda ffrindiau yw fel rheol. Fel mae'n digwydd, rydym yn byw tua chwarter awr o gerdded o'r tŷ bwyta gorau yn ardal Perugia yn Umbria, "La Locanda dei Golosi". A "cerdded" ydi'r gair pwysig, gan nad yw hi'n bosib symud ar ôl yr holl fwyd sy'n cael ei baratoi. Ar drawiad hanner nos, mae Roberto, y perchennog, sy'n arbenigwr ar baratoi bomboloni, yn eu cynnig i bawb. Cychwyn perffaith i flwyddyn newydd arall.

***Dewi Rogers***

MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

Glyn Evans Autoclinic
Atgyweirio Ceir
Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141
repairs@evansautoclinic.com

# Nid Chwarelwr Ydwyf i – Rhan 1

Mae'r Llwybr Llechi sy'n 83 milltir yn mynd â chi ar daith yn ôl i gyfnod mewn hanes pan oedd Eryri yn ganolbwynt i'r diwydiant llechi. Her braf Arwel Emlyn oedd cael cerdded y llwybr gyda Huw Dylan dros gyfnod o wyth taith ddyddiol. Dyma'r daith gyntaf:

Bangor i Bethesda
10.2km 6.3milltir
Porth Penrhyn

Ymlwybro i lawr i'r porth oedd dechrau'r daith a mynd ar goll bron cyn cychwyn! O'r fan yma gyrrwyd llechi i roi to ar y byd - Buenos Aires, Sydney, bob man. Rhyfeddol o feddwl fod bopeth felly wedi tawelu ond felly y mae ac ymlaen i chwilio am gastell chwedlonol Penrhyn.

Porth Penrhyn

Deuai'r wagenni fel nadroedd hir
Yn llawn o lechi gorau'r tir
I'w hallforio i lefydd pell
Er mwyn i'r toeau fod yn well;
I Buenos Aires a Sydney draw
Rhag i'r toeau ollwng glaw
Ac yn ogystal â tho ar dŷ
Hefyd cynhyrchu byrddau du
Er mwyn dysgu y plant a'u cael
I wella eu gwybodaeth gwael.
Bu'n ffordd i Arglwydd y fan hyn
Godi castell ar y bryn,
A Chastell Pernrhyn, dyma yw,
Arian toeau'r ddynol ryw
Ac o roi to ar y ddaear lawr
Fe ddaeth i'r meistri arian mawr.

Chwilio am Gastell Penrhyn



Wedi mynd ar goll eto a chrwydro rhy bell at bont rheilffordd Cegin, troi yn ôl a cheisio cyrraedd y ffordd fawr cyn dilyn waliau hir syrffedus Castell Penrhyn.

Dal i fynd a dal i chwilio. Wedi cyrraedd y porth, gweld ei bod yn dri chwarter milltir wedyn i'r Castell. Dal i gerdded mewn gobaith o gyrraedd a chael cip ar y castell ond, ond, ond heb ei weld!

Buasai yn costio £14.60 i fynd i mewn, gwarthus! Costio crocbris i weld cyfoeth. Ond roedd y lle wedi cau (diolch byth) ond wedyn gallech weld y gerddi am £8, gwarthus eto am weld yr hyn sy'n tyfu yn naturiol ar ben eu hunain, hynny yw, planhigion!

Oddi yno.

Mae rhyw arogl troedig cyfoeth yn dal ar y lle. Aŵe.

Castell Penrhyn

Rhyw le sy'n debyg i Versaille
Ond ar raddfa dipyn yn llai
Lle roedd holl arian gwerin y byd
Yn cael ei wario ar bethau drud,
Codi Castell gyda'r wawr
Er mwyn arddangos cyfoeth mawr.
Gwelais ddynes mewn cap "Bastille"
Ger lle bu'r byddigion yn dawnsio'n chwil,
Roedd y cost mynediad bron yn bymtheg punt
Dim ond i weld rhyw fochyndra cynt;
Mae'r gost yn ormod i weld yr hyn wnaed
I sathru'r werin dan eu traed
A chan mai clodfori cyfoeth mae'r stâd
£14.60, dyna sarhâd!
Doedd dim i'w wneud ond mynd o'r fan
Fanteisiodd ar y werin wan,
Sy'n gwneud i enaid deimlo'n flin.
Diwedd ymweliad: guillotine.
Les Miserables oeddwn wrth fyned i ffwrdd
A'r Castell a minnau byth wedi cwrdd
Dianc ymhell o ffin a wal
Rhag i apêl ariangarwch fy nal;
Cadwch eich castell, wal a choed
A stwffiwch eich cyfoeth fel erioed.

Fyny Dyffryn Ogwen am Fethesda

Wrth fynd i fyny gerllaw Dyffryn Ogwen, edrych yn ôl fel gwraig Lot a gweld yn y pellter, Gastell Penrhyn, achos lle i'w weld o bell ydi o i fod.

Nid lle i'r werin fod yn agos ato. Dwi ddim yn ei werthfawrogi o bell nac agos gan ei fod wedi llyncu tir o fewn ei waliau uchel. Ymlaen i Bethesda i weld lle oedd y werin yn gweithio a sylwi fod y ffensys hyd yn oed wedi eu gwneud o lechi! Ac yn hynod o dda wrth gysgodi rhag y gawod ddaeth. Eith dŵr ddim drwy lechen, mae hynny'n siwr.

Llechi

Llechi'n grawiau yn y glaw,
Llechi'n llwyd i'r ochr draw,
Llechi'n ffens ar ochr cae,
Llechi'n waliau, felly y mae,
Llechi'n llwyr pob carreg fedd,
Llechi'n fyrddau, llechi'n sedd,
Llechi'n wely i'r hen Queen Vic,
Llechi'n dunnell, trwm a slic,
Llechi mewn tai yn loriau hir,
Llechi holltwyd o wythiennau'r tir,
Llechi'r pantri yn lechen las,
Llechi i fwydydd gadw eu blas,
Llechi byrddau snwcer a phŵl,
Llechi mawr, hynod o cŵl,
Llechi'n llenwi pob un to,
Llechi'r streic, dal yn y co',
Llechi'r Penrhyn yn domen fawr,
Llechi'n lwybrau ar y llawr,
Llechi'n eco ar y daith,
Llechi, llechi, llechi'r gwaith,
Llechi'n sychu yn y gwynt,
Llechi, llechi'r bwrlwm cynt.

## Eglwys Llanllechid



Rhyfeddol yn wir yw mynwent Llanllechid, pob carreg fedd yn urddasol uchel ac yn llawn o benillion, englynion a chydymdeimlad. A'r hyn sy'n hynod o drawiadol ydi'r coed yn osgordd i mewn ac allan o'r fynwent - lôn goed fechan gyda bwa o ddail uwchlaw. Porth o'r bywyd yma i feddyliau uwch os bu erioed. Rhwng y coed, cerrig beddi wedi eu gwthio i mewn i bob cornel oherwydd roedd y boblogaeth yn fawr ers talwm a graddfa colli bywyd yn uchel hefyd. Chwarae teg mae'r bwa yn aros yn fy nghof ac yn deyrnged i'r holl chwarelwyr.

### Bwa

Bwa'r dail yw llwybrau'r daith - at fynwent
O fan eu caledwaith
Mynd o gur eu llafurwaith,
Bwa o goed lle bu gwaith.

Arwel Emlyn

( Ceir rhan olaf y daith gyntaf ar hyd Y Llwybr Llechi mis nesaf)




## Capel y Fron

Bore Sul Rhagfyr 5ed. cafwyd Gwasanaeth Adfent wedi ei drefnu gan Wendy Lloyd Jones, llywydd y mis. Cymerwyd rhan gan Pamela Lloyd, Olwen Griffiths, Eleri Jones, Angharad Rhys a Nerys Ann Roberts. Roedd yr oedfa ar y cyd gydag aelodau'r Capel Mawr. Mae ein diolch hefyd i Wendy, Siân a Dafydd Lloyd Jones am eu gwaith yn addurno'r capel ar gyfer y Nadolig.

Bore Sul Rhagfyr 19eg ein Gweinidog, Y Parch Andras Iago, oedd yn gwasanaethu ac roedd wedi paratoi ar ein cyfer gyda Gaynor Prew yn darllen rhannau o'r ysgrythur, Cheryl Williams yn gweddio ac Ifor John Jones yn canu carol. Diolchodd Wendy i'r Gweinidog ac i Iola Edwards ac Eiri Jones am eu gwasanaeth wrth yr organ yn ystod y mis.

Rydym yn cydymdeimlo gyda Carys Jones sydd wedi colli ei brawd yng nghyfraith a gydag Eiri Jones sydd wedi colli cefnder a John Geraint Jones sydd wedi colli ewythr.

Anfonwn ein cofion at rai o'r aelodau sydd ddim yn gallu dod atom i'r gwasanaeth ar hyn o bryd.

Pob bendith i'r holl aelodau ar gyfer y flwyddyn newydd.

Diolch hefyd i drysoryddion y gwahanol gyfrifon ac yn arbennig i Richard Snelson am ei waith gyda chyfrifon y Weinidogaeth.



# "NEWID DDAETH……"
# CAPEL BRWCWS YN DIRWYN I BEN – DIWEDD 2021

GAN E DILWYN JONES



Dydd Sul cyntaf Mai 1984 oedd hi. Ethol blaenoriaid yng Nghapel Brwcws a Robert H Griffith, Geraint P Lloyd a minnau yn cael ein hethol ac yn ymuno hefo Elwy Davies, John Hughes, Huw Wyn Jones, Llewelyn Jones a Trefor ac Olwen Lloyd ac yn creu criw o 9 blaenor! Yr oedd yr ordeinio ym mis Gorffennaf ym Mhrestatyn. Bellach, dim ond Geraint a minnau sy'n fyw o'r 9 a dim ond fi allan o'r naw yn dal ar ôl yn Y Brwcws ar ddiwedd 2021.

Dim ond cwta dri mis dros 22 oed oeddwn i adeg yr ethol – blaenor ieuengaf yr Henaduriaeth ar y pryd ac yn ansicr o fy nheilyngdod i'r fath swydd aruchel. "Dw i ddim yn meddwl fy mod yn ddigon da" oedd fy nghri - hefo pawb wedyn yn anghytuno, yn rhestru fy rhinweddau tybiedig ac yn pwysleisio na fyddwn wedi fy ethol yn y lle cyntaf oni bai i fwyafrif o'r aelodau gredu fy mod yn ddigon da…..

Er, yr oedd un eithriad. Pan ddywedais wrth Y Parch Gwilym Ceiriog Evans nad oeddwn yn gweld fy hun yn ddigon da, ei ateb annisgwyl oedd "Na dwyt ti ddim"!! Fodd bynnag, prysurodd i egluro nad mater o fod yn ddigon da oedd o – oherwydd, pe bae felly, go brin y byddai unrhyw weinidog na blaenor arall yn eu swyddi. Rhai sydd ddim yn ddigon da ond yn ceisio gwneud ein gorau ydym ni i gyd!

Ar wahan i fy oedran ifanc, dim ond ers tua blwyddyn a hanner i ddwy flynedd yr oeddwn i a'm rhieni yn aelodau yn Y Brwcws ar y pryd ar ôl dod i fyw yn Ninbych o Ruthun.

Cofiaf Gwyn Hughes, Fferm y Brwcws, yn fy llongyfarch ar gael fy ethol gan ychwanegu "Dyna sut y mae pobl yn cael eu hethol yn flaenoriaid – yn sydyn cyn i bobl eu hadnabod yn iawn – fyddai ganddynt ddim siawns fel arall!"

Cefais, serch hynny, anrhydedd arbennig a ffydd aelodau'r Brwcws ynof ar y pryd yn rhyfeddol. Newidiodd hyn fy mywyd mewn sawl ffordd. Dechreuais geisio gweddio heb sgript. Hefyd, cefais y cyfle o sawl swydd gofiadwy fel ysgrifennydd Gŵyl Yr Ysgol Sul yn yr ardal pan oedd yr ŵyl mewn bri mawr ac ysgrifennydd pwyllgor Ysgol Sul ac Ieuenctid yr Henaduriaeth yn trefnu yr arholiad sirol hefo 53 o gapeli i anfon atynt bryd hynny. Eto, y peth mwyaf oedd dechrau pregethu yn lleyg gyda chymhelliad Y Parch Eifion Jones yn 1992. Yr wyf yn dal wrthi! Daeth sawl cyfle a braint i'm rhan oherwydd cefnogaeth pobl "yr hen gapel bach." Mawr yw fy nyled a'm diolch!

Cawsom lawer bendith a llawer o hwyl dros y blynyddoedd – yn yr Ysgol Sul (lle cefais fod yn athro ar Bryn Williams, y cogydd, ymhlith eraill ar un adeg) a thripiau i Stiwdios Granada a Cadbury World ayyb a hefyd yn y Gymdeithas Lenyddol yn y capel gan gofio noson flynyddol ryfeddol y "brethyn cartref."

Eto, "newid ddaeth."

Lleihaodd yr aelodaeth o dros 120 pan ddaeth fy rhieni a minnau i'r capel yn 1982 i 30 erbyn hyn.

Aeth gweithwyr y winllan yn llawer mwy prin a'r costau yn uwch a'r arian yn dynn.

Yr oeddem wedi etifeddu yn hael gan Y Parch Iorwerth Roberts ychydig flynyddoedd yn ôl ac wedi gallu gwario ar yr adeilad ac ar adnoddau ac wedi gallu tynnu ar yr arian er mwyn llwyddo i dalu'n ffordd ers rhai blynyddoedd. Bellach yr oedd y ffynnon yna wedi sychu.

Bu Ysgol Sul arbennig hefo nifer helaeth o blant yn mynychu. Lladdwyd hyn i raddau helaeth gan egwyl orfodol Covid.

Daeth pryder am le parcio wrth i tua chant a hanner o dai newydd gael eu codi yn ymyl y capel. Go brin y gallem bellach barcio yn ddiogel ar ochr y ffordd.

Mae pethau yn newid beth bynnag a thuedd gynyddol tuag at gyd-addoli.

Felly, Sul cyntaf Hydref 2021 oedd hi. 37 mlynedd a 5 mis union o Sul fy ethol yn flaenor a dyma bleidlais arall – y dewis y tro yma = cau, uno hefo'r Fron neu ceisio dal ati. 12 allan o 19 am uno. Mwyafrif o 63%. Cadarnhawyd hyn yn fwy diweddar gan bleidlais swyddogol hefo cynrychiolwyr yr Henaduriaeth yn bresennol.

Fy hun, nid mynd i'r Fron (neu'r eglwys unedig newydd fel y bydd hi) fyddaf i ond trosglwyddo i Salem Llanfair DC oherwydd yno y mae'r gladdfa deuluol hefo fy rhieni, fy nhaid a'm nain ochr mam, ewythr a dwy fodryb ac aelodau pellach o'r teulu yn gorffwys yn y fynwent. Ymddengys, fodd bynnag, y bydd y mwyafrif llethol, os nad y cyfan, o'r aelodau eraill bellach yn ymuno hefo'r Fron.

Gobeithio y daw pethau yn eu blaenau ar sawl ystyr ond trist yw'r presennol i mi ac ansicr y dyfodol yn aml.

E. Dilwyn Jones




## Mynediad am ddim i Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022




Mae Urdd Gobaith Cymru yn falch o gyhoeddi y bydd mynediad am ddim i faes Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych, a gynhelir rhwng 30 Mai – 4 Mehefin 2022.

Daw'r cyhoeddiad yn sgil cadarnhad y bydd yr Urdd yn derbyn £527,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru, er mwyn darparu mynediad am ddim i Eisteddfod yr Urdd 2022, yng nghanol blwyddyn canmlwyddiant y mudiad.

Dywedodd Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg: "Rwy'n falch iawn o gefnogi'r ŵyl wych hon drwy gyhoeddi y bydd mynediad i Eisteddfod yr Urdd 2022 am ddim. Rwy'n gobeithio y bydd cymaint o bobl â phosibl yn manteisio ar y cyfle i fynychu a dathlu canfed blwyddyn y mudiad.

"Mae'n dyst i waith yr Urdd bod cymaint o oedolion ag atgofion melys o'u profiad o fynychu'r Eisteddfod a chystadlu pan oedden nhw'n iau. Mae Eisteddfod yr Urdd nid yn unig yn un o uchafbwyntiau diwylliannol ein calendr Cymreig, ond hefyd yn ffordd wych i'n plant a'n pobl ifanc weld a chlywed ein hiaith, ei siarad eu hunain, a chymryd rhan yn y digwyddiadau cystadleuol a chymdeithasol niferus sydd ar gael."

Meddai Siân Lewis, Prif Weithredwr yr Urdd: "Rydym yn hynod ddiolchgar i Jeremy Miles AS am gadarnhau y bydd hi'n bosibl i ni gynnig mynediad am ddim i faes Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022. Hwn fydd y digwyddiad celfyddydol cenedlaethol mwyaf i blant a phobl ifanc Cymru ers cychwyn y pandemig, a bydd cynnig mynediad am ddim yn ei gwneud yn ŵyl i bawb.

"Rydym yn ymfalchïo ein bod yn sefydliad cynhwysol sy'n agored i blant a phobol ifanc o bob cefndir. Ein gobaith yw denu mwy o ymwelwyr a chystadleuwyr o bob cwr o Gymru gan gynnwys o ardaloedd difreintiedig."

Yn ôl Siân Eirian, Cyfarwyddwr Eisteddfod yr Urdd a'r Celfyddydau: "Heddiw (7 Rhagfyr 2022) mae cofrestru i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2022 yn agor ac felly mae'r cyhoeddiad yma'n un amserol iawn, ac yn golygu y gall unigolion, ysgolion ac Aelwydydd fynd ati i ddechrau trefnu a phenderfynu ar gystadlaethau.

"Mae plant a phobl ifanc wedi colli allan ar gymaint o brofiadau celfyddydol oherwydd Covid, felly mae hen edrych ymlaen at Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych ar ôl gorfod gohirio ers dwy flynedd. Mae'r gefnogaeth gan wirfoddolwyr lleol a Chyngor Sir Ddinbych wedi bod yn wych ac rydym yn edrych ymlaen at barhau gyda'r cydweithio dros y misoedd nesaf i wneud Eisteddfod y canmlwyddiant yn un i'w chofio."

O ganlyniad i'r sefyllfa bresennol yng Nghymru a thu hwnt o ran Covid-19, mae trefnwyr yr Eisteddfod yn bwriadu cynnal cyfanswm o dros 220 o Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth di-gynulleidfa yn y gwanwyn, a bydd cystadlaethau llwyfan i'r aelodau sydd rhwng 19 a 25 oed yn mynd yn syth i'r Genedlaethol yn Ninbych.

Mae canllawiau pellach ar gyfer cystadlaethau unigol a thorfol a threfn yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth bellach ar gael ar wefan yr Eisteddfod.



## Clwb Cyfeillion Eisteddfod yr Urdd

Ar gais Pwyllgor Gwaith Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych, sefydlwyd Clwb Cyfeillion Eisteddfod yr Urdd er mwyn cefnogi'r ymgyrch i godi arian yn lleol. Y bwriad yw casglu cynifer o aelodau cyn diwedd y flwyddyn a denu o leiaf 100 o unigolion i'r clwb cyn 31 Rhagfyr 2021. Bydd pob aelod yn cytuno i gyfrannu £5 y mis i gronfa'r Clwb Cyfeillion drwy Fandad Archeb Sefydlog misol – a hynny ar y 10fed diwrnod o'r mis. Tynnir y rhifau cyntaf ddiwedd mis Ionawr 2022. Byddwn yn cyflwyno'r fenter i'n cyfeillion ar bwyllgorau amrywiol yn Sir Gâr, Maldwyn ac yna'n genedlaethol maes o law gyda'r elw yn cael ei rannu rhwng y dair Eisteddfod ond y canran uchaf yn mynd at gronfa Sir Ddinbych. Cofiwch, y mwyaf o enwau gofrestrir, mwyaf fydd gwerth y gwobrau a mwyaf yr elw a gesglir tuag at yr Eisteddfod! Gan ddiolch yn ddiffuant o flaen llaw am bob arwydd o gefnogaeth i'r Eisteddfod.

Gellir derbyn ffurflen i ymuno â'r Clwb Cyfeillion drwy gysylltu â steffanprys@urdd.org neu ffonio 01678541015.

Gyda diolch am bob arwydd o gefnogaeth i'r Eisteddfod.

Mae croeso i chi gysylltu os am ragor o wybodaeth.

Yn gywir,
Steffan Prys
Urdd Gobaith Cymru
Trefnydd Cynorthwyol Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau
Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn, Y Bala, Gwynedd, LL23 7ST




# DEFAID WILLIAM MORGAN

“Mae rhywbeth bach yn poeni pawb,” canodd Hogia Llandegai ac eraill, “Nid yw yn nef ym mhobman.” Ond mae nifer yn honni fod hyn yn gwneud dim synnwyr o gwbl, a bod “yn unman” yn llawer gwell diweddglo i’r llinell nag “ym mhobman”. Dwi’n tueddu i gytuno. Meddyliwch amdano fo.

Ac wrth edrych i mewn i’r mater holl-bwysig hwn, wnes i ddod ar draws gwefan http://www.canu.sesiwn.co.uk/ (Geiriau Caneuon Cymraeg) sy’n cynnig, “Mae rhywbeth bach yn poeni pawb. Nid yw ‘run fath ym mhobman.” Llawer gwell yn fy marn i – ond beth ydy barn darllenwyr Y Bigwn sgwn i? Gadewch i ni wybod!

Beth bynnag am hynny, hoffwn sôn am ychydig am faterion sydd wedi bod yn fy mhoeni i yn ddiweddar. Rhaid pwysleisio ar unwaith fod gen i ddim bwriad o gwbl i ddisodli ein Victor Meldrew ein hunain (“I don’t believe it!”), er i mi synhwyro ei fod yn meddalu ryw ychydig pan ddarllenais yn rhifyn ola’r Bigwn ei fod wrth ei fodd yn gwylio “Strictly ...” Be’ fasa Tarw Nefyn yn ddeud tybed?!

***************************




Oes rhai ohonoch yn gwneud defnydd o wefan “Wiggle”? Cyn i chi gynhyrfu’n ormodol, dydy’r wefan hon ddim mor amheus â mae’r enw’n awgrymu. Mae’n wefan hollol barchus sy’n gwerthu dillad seiclo, rhedeg, nofio ac ati, a dwi wedi prynu sawl eitem yn y gorffennol ac wedi ‘modloni gan safon yr eitemau, y prisiau rhesymol a’r gwasanaeth cyffredinol. Felly penderfynais gwblhau holiadur “Bodlonrwydd Cwsmeriaid” ar ôl fy archeb ddiwethaf. Roeddwn yn llawn canmoliaeth ac wedi rhoi marciau uchel ym mhob adran nes i mi gyrraedd y cwestiwn oedd yn gofyn ble oeddwn i’n byw – gweler y dewisiadau.

A ble mae Cymru ar y rhestr meddech chi? Dyna’r union gwestiwn ofynnais i “Wiggle” ac i “Survey Monkey”. Fydd hi’n fawr o syndod i chi glywed, rhai wythnosau’n ddiweddarach, ‘mod i’n dal i ddisgwyl ymateb. A disgwyl fydda’i mae’n debyg.

***************************

Ac un peth arall.........! Faint ohonoch sydd wedi cwyno am anhawster parcio yn Ninbych? A faint ohonoch sydd wedi cwyno am Wardeiniaid Traffig yn y dref? Ychydig amser yn ôl roeddwn angen mynd i ddwy siop ar dop y dref ac yn rhedeg yn brin o amser. Ond “Bingo!” llwyddais i gael lle i barcio yn y bae y tu allan i’r Co-op. Roeddwn wedi prynu beth oedd eu hangen mewn dim o amser ac yn mynd yn ôl at y car yn dalog. A dyna siom. Roedd hi’n amhosibl symud allan o’r man parcio gan fod lori fawr




Warburton’s wedi parcio ar y ffordd ac yn rhwystro fy ffordd allan. Chwarae teg i ddynion Warburton’s, roeddan nhw’n ymddiheuro ac yn dweud, “This happens all the time.” Ydach chi wedi cael yr un profiad? Beth sy’n digwydd wrth gwrs ydy fod pobl yn parcio eu ceir y tu allan i siop Boots, cilfan sydd wedi ei glustnodi i lwytho a dadlwytho (DIM I BARCIO!) ac yn diflannu i wneud eu siopa. (Yn yr amser roeddwn i’n disgwyl i symud y car, aeth yr un ohonyn nhw i mewn i Boots.) Wedyn os oes lori



neu fan yn dod gyda llwyth i un o’r siopau, does dim dewis ganddyn nhw ond i barcio ar y stryd.

Felly dyma fy nghwestiwn – ble mae ein Wardeiniaid Traffig pan mae eu hangen?!

***************************

Ac yn olaf .... Ond na, wrth feddwl, efallai fydd y person sydd gen i dan sylw ddim yn ei swydd erbyn i’r rhifyn hwn gael ei gyhoeddi.

BLWYDDYN NEWYDD DDA!

*John Davies*

## Bag y Bigwn
## Diolch yn fawr am eich cefnogaeth

Di-enw
£10.00
Eirwyn a Mary Jones, Gwynedd, Ffordd Rhuthun
£10.00
Elfed ac Helena Williams, 21 Erw Salusbury
£10.00
Hetty Humphries, Bro Dawel, Ffordd Rhuthun
£5.00
E.P.Denman
£10.00
Gwyneth Kensler
£40.00
Nancy a Huw Jones
£10.00
Eirwen Evans
£10.00

## DIOLCH

Dymuna Nancy Jones, Burwen, Bryn Teg,ddiolch i bawb am eu caredigrwydd yn ystod ei harosiad yn Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Abergele. Diolch am y galwadau ffôn a’r cardiau dderbyniodd yn yr ysbyty ac ar ôl dod adre.

# Dathlu'r Flwyddyn Newydd yn yr Alban

Yma yn yr Alban mae Nos Calan yn cael ei gymryd yn ddifrifol iawn, gymaint felly rydym ni'n cael y 1af a'r 2ail o Ionawr fel gwyliau cyhoeddus!! Mae yna hen draddodiadau sydd dal yn cael eu cadw fel 'first footing' lle mae'r person cyntaf trwy ddrws y tŷ ar ôl hanner nos yn dod â dymuniadau gorau am y flwyddyn i'r holl deulu a blynyddoedd yn ôl byddant yn dod â darn o lo fel anrheg ac yn dweud 'Lang may yer lum reek' i ddymuno i'r teulu ddigon o danwydd i'r tân am y flwyddyn.

Ar ôl byw yn yr Alban am ddeuddeg mlynedd rydw i wedi cael aml Nos Galan yma, ac ers cyfarfod fy ngwraig Kiya sydd yn wreiddiol o Wick, Caithness (sydd ddim yn bell o John O'Groats) rydw i wedi profi Nos Calan yn Wick ambell dro. Fel arfer mae'r noson yn cychwyn gyda phryd o fwyd gyda'r teulu cyn mynd am beint neu ddau i'r dafarn leol. Tua hanner awr wedi unarddeg, gadael y dafarn a cherdded i fyny am y parc yng nghanol y dref lle mae'r bobl leol wedi casglu digon o bren i wneud coelcerth fawr. Erbyn hanner nos mae'r goelcerth wedi cydio yn dda ac mae'r tymheredd o'r tân yn cadw pawb yn gynnes cyn dechrau cyfri'r eiliadau i lawr am hanner nos. Fel arfer mae digon o be mae'r Albanwyr yn galw'n 'dŵr bywyd' neu wisgi o gwmpas sydd yn mynd lawr yn dda wrth y tân. Fel mae'r cloc yn taro hanner nos mae pawb yn cofleidio ei gilydd ac yn ysgwyd llaw i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda gyda'r pibau yn cael eu chwarae yn y cefndir gan un o'r bobl leol. Mae'n brofiad bythgofiadwy sydd yn eich gadael chi mewn dim amheuaeth eich bod yn ucheldiroedd yr Alban!

Dwi'n wreiddiol o Ddinbych ac yn fab i Elfed a Janet Evans y Ffowndri. Dwi'n un o dri phlentyn gyda chwaer hŷn, Lowri Fernandes, sydd bellach yn byw gyda'i gŵr Jorge yn Rhewl hefo'u plant Tomos a Daniel, a chwaer iau, Manon Evans, sy'n byw ym Mae Colwyn. Yn lwcus roeddwn o hyd yn sicr fy mod am yrfa mewn coedwigaeth ers imi fod yn hogyn ifanc felly ar ôl cwbwlhau fy TGAU yn Ysgol Glan Clwyd, penderfynais gymryd cwrs diploma cenedlaethol mewn coedwigaeth yng Ngholeg Llysfasi. Ymlaen wedyn i astudio am radd sylfaenol mewn coedwigaeth ym Mhrifysgol Central Lancashire (Newton Rigg) ger Penrith, Cumbria.


Fel nes i sôn yn gynharach dwi wedi byw yn yr Alban ers deuddeg mlynedd bellach. Fy swydd gyntaf oedd gyda chwmni teuluol yn Crieff, Perthshire ac wedyn mewn nifer o ardaloedd yn yr Alban cyn setlo yn Fort William lle rydym wedi byw ers y saith mlynedd diwethaf. Rydw i ar hyn o bryd yn gweithio i gwmni coedwigaeth preifat sydd yn rheoli nifer fawr o goedwigoedd yma yn yr Alban a hefyd yng Ngogledd Lloegr. Coedwigwr cynhaeafu ydw i yn trefnu torri coed a'u danfon i'r felin lifio. Does dim dau ddiwrnod fel ei gilydd yn y gwaith yma ac fel mae pwysigrwydd coedlannau yn cynyddu, mae'n siwr y bydd amrywiaeth i'r gwaith yn y dyfodol.

Fel arfer dydw i ddim yn un am addewidion Blwyddyn Newydd ond yn y flwyddyn nesaf yma, dwi am gadw mewn gwell cysylltiad gyda theulu a ffrindiau sydd ymhell ac agos.

Gobeithio bod pawb wedi cael Dolig dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'r Alban.

Rhys Meredydd Evans

(llun ar dudalen 36)






## Y Flwyddyn Newydd yn Siberia

Gan nad oedd y wladwriaeth Sofietaidd yn caniatau crefydd, y flwyddyn newydd ydi'r dathliad blynyddol mwyaf yn Rwsia - mae Rhagfyr 25ain.yn ddiwrnod gwaith arferol yma. Er hynny, mae'r Eglwys Uniongred yn dathlu'r Nadolig ar Ionawr 7fed., ond gŵyl grefyddol ydi hi - gwahanol iawn i'r Nadolig ym Mhrydain.

Mae pobl yn dechrau paratoi at y flwyddyn newydd yn nechrau Rhagfyr - addurno eu cartrefi a phrynu anrhegion i deulu a ffrindiau. Yn debyg i Brydain, y goeden binwydd ydi canolbwynt yr addurniadau ac mae coeden fawr yn sefyll ar sgwâr canolog pob pentref, tref a dinas.

Ar Ragfyr 31ain. mae pawb yn deffro'n gynnar i lanhau eu cartrefi - mae hi'n bwysig yma i gyfarch y flwyddyn newydd mewn cartref glân. Pan mae'r tŷ'n barod, mae pawb yn ymgynnull yn y gegin i ddechrau paratoi at y wledd.

Mae bwyd yn bwysig iawn ym mhob dathliad yn Rwsia, ond mae'r flwyddyn newydd yn achlysur pan mae pobl yn mynd i hynod o drafferth i sicrhau fod y bwrdd yn llawn o ddanteithion blasus cyn eistedd i lawr i fwynhau cwmpeini eu teulu a ffrindiau. Mae hi'n draddodiad i baratoi *pelmeni* - peli bach o friwgig mewn toes sydd yn cael eu berwi yn debyg iawn i ravioli - a gŵydd, hwyaden neu ddarn o gig. Ond hoff ddysglau y Rwsiad ydi'r saladau. Does dim sôn am letys neu giwcymbr mewn salad Rwsieg traddodiadol - mae'r salad yma yn fwy o bryd o lawer. *Olivye* ydi'r ffefryn gwladol - tatws, wyau, ham, nionyn a phys wedi eu torri'n fân cyn cael



Gwneud pelmeni

eu boddi mewn *mayonnaise*. Hefyd mae *selyodka pod shuboi* (pennog dan gôt ffwr) yn boblogaidd iawn - haenau o bennog hallt, tatws, nionyn a moron a haen uchaf o fetys a garlleg wedi eu gratio mewn *mayonnaise.*

Pan mae'r bwyd yn barod, mae *ded moroz* (taid rhew) a'i wyres *snegurochka* (merch yr eira) yn cyrraedd i roi anrhegion i'r plant. Mae rhai teuluoedd yn gwahodd actorion ond fel arfer, aelodau o'r teulu sy'n chwarae rhan y cymeriadau.

Tua 10 o'r gloch yr hwyr, wedi i bawb agor eu anrhegion, mae'r teulu yn eistedd wrth y bwrdd i fwyta ac yfed. Am 11.45 mae pob sianel teledu yn dangos araith yr Arlywydd cyn i glychau'r Kremlin annerch y flwyddyn newydd.

Mae hi'n draddodiad i ysgrifennu dymuniad ar ddarn o bapur, llosgi'r papur a gadael i'r lludw syrthio i mewn i wydr diod ac am hanner nos, yfed y diod er mwyn i'r dymuniad ddod yn wir.

Ar ôl bwyta, mae'r teulu oll yn mynd am dro i weld y goeden ganolog. Mae'r awyr yn llawn o dân gwyllt llachar a'r strydoedd yn llawn o bobl yn dathlu dechrau'r flwyddyn newydd.

Einir o Tyumen, Siberia

## Dathlu Diwrnod Diolchgarwch yn UDA

Mae Diwrnod Diolchgarwch, y pedwerydd dydd Iau ym mis Tachwedd, yn bwysicach na Diwrnod Nadolig i Americanwyr. Mae'n Ŵyl genedlaethol ac mae pobl yn teithio yn bell i gael treulio'r diwrnod gyda'u teuluoedd, yn bwyta twrci a phastai pwmpen. Yn y dinasoedd mawr mae 'na baredau a rasys ac mae chwarae neu wylio pêl-droed yn bwysig hefyd. Diolchgarwch am y cynhaeaf a bendithion y flwyddyn yw gwreiddyn y dathlu, ac mae 'na hanes sy'n dweud bod y Pererinion a hwyliodd o Loegr i'r cyfandir wedi dathlu'r cynhaeaf cyntaf gyda'r bobl frodorol. 'Dydd Gwener Du' yw enw'r diwrnod sy'n dilyn, pan fydd pawb yn heidio i'r siopau.




Times Square

Mae dathlu'r Calan yn UDA yn debyg iawn i'r dathliadau yng Nghymru o ran y partïon a'r tân gwyllt ac ati. Yn Times Square, Efrog Newydd, mae tyrfaoedd yn dod i seremoni Gwylio'r Bêl yn Disgyn am hanner nos tra bod pobl ar draws y wlad, a rhannau helaeth o'r byd, yn gwylio'r cyfan ar y teledu. Ar nos Galan 2021-2022 roedd rhaid i chi brofi eich bod wedi cael eich brechiadau cyn cael mynediad!

Gareth Crawford, Detroit, Michigan.

**BROOKHOUSE MILL**

**Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul**
**Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd**

Dydd Sul 12-6 Dydd Llun - ar gau
Dydd Mawrth- Gwener 12-3, 5.30 tan hwyr
Dydd Sadwrn ar agor trwy'r dydd

**Ffôn: 01745 813377**

## Adduned y Flwyddyn Newydd

Dach chi'n gwneud addunedau'r Flwyddyn Newydd? Blynyddoedd yn ôl ar y 1af o Ionawr y cwestiwn mawr oedd - "Wyt ti wedi gwneud adduned Blwyddyn Newydd?" a'r cwestiwn yna yn cael ei ddilyn efo " A beth wyt ti wedi penderfynu?" Diolch byth doedd dim llawer o bobl yn gofyn ychydig o wythnosau wedyn "Sut wyt ti'n gwneud efo dy adduned?" Pan o'n i'n ifanc ac yn hollol ffôl yr adduned pob blwyddyn oedd rhoi'r gorau i smygu. Roedd rhoi'r gorau i smygu yn hawdd iawn - nes i hynny llawer gwaith! Ond y tro olaf oedd yr un bwysig, yr un sydd wedi parhau hyd heddiw.

Dw i ddim yn clywed llawer am yr arferiad y dyddiau yma. Ydy pobl yn dal i'w wneud? Achlysur od iawn yw'r flwyddyn newydd, mae fel bod chi'n cael tudalen lân ar y 1af o Ionawr a dyna eich cyfle i newid eich ffordd o fyw. Wel, tydi pob diwrnod yn rhoi tudalen lân i chi, neu bob awr a phob munud? Wrth gwrs eu bod nhw! A diolch byth am hynny achos mae'n annhebyg eich bod chi'n darllen yr erthygl yma ar Ionawr y cyntaf.

Mae dau fath o adduned, yr addewid i beidio gwneud rhywbeth o hynny ymlaen neu'r addewid i wneud rhywbeth. Dydy hi ddim yn bwysig pa bynnag dewis dach chi'n wneud. I'w wneud ac i'w gadw sydd yn bwysig.

Fel pob un ohonoch chi, dw i wedi cael fy effeithio gan yr hen pandemig greulon yma ond dw i'n falch o ddweud nid effaith gwael dw i wedi ei gael. Mae'n wir i ddweud roeddwn i wedi cael fy rhwystro i dreulio amser yn cerdded cefn gwlad yn y dyddiau cynnar, a dw i wedi dod i arfer â pheidio mynd mor aml. Dyna'r effaith negyddol.

Ond mi oedd effaith cadarnhaol hefyd. Chi'n gweld, dw i ddim yn hapus os nad oes gen i rywbeth i'w wneud ac roedd y syniad o fod dan glo am fis braidd yn hunllefus. Beth alla i wneud? Blynyddoedd yn ôl pan o'n i'n diwtor ym Mhowys roeddwn i'n cyhoeddi cylchlythyr i ddysgwyr o'r enw Y Wennol ac roeddwn yn mwynhau'r profiad. Tybed a fydda i'n gallu atgyfodi'r cylchlythyr? Roeddwn i'n adnabod llawer o ddysgwyr trwy Gymdeithas Edward Llwyd a hefyd trwy grŵp oedd yn cyfarfod yn wythnosol yn yr ardal. Anfonais neges atyn nhw i esbonio'r syniad a gofyn a fydden nhw'n fodlon ysgrifennu erthyglau. O fewn tair wythnos ces i ddigon i lenwi chwe tudalen ac roedd y cylchlythyr allan at bawb o'n i'n eu hadnabod oedd yn siarad Cymraeg erbyn Ebrill 1af.

Mae'n dal i fynd ymlaen a dyma fi wedi cyhoeddi rhifyn mis Ionawr erbyn hyn ac erbyn mis Mawrth bydd Y Wennol wedi cyrraedd ei ail ben-blwydd. Mae 15 tudalen ynddo erbyn hyn a llawer mwy o ddysgwyr yn cyfrannu.

Nid pwrpas yr erthygl hon yw dweud jôc am ba mor hawdd yw hi i roi'r gorau i smygu. Na, yn hytrach i bwysleisio gwerth cael dysgwyr i'n cymunedau a'n cymdeithasau - maen nhw'n barod i gyfrannu, yn wir maen nhw eisiau cyfrannu. Edrychwch ar oedran aelodaeth eich cymdeithasau a gofynnwch faint fydd yn dal yna mewn deng mlynedd. Dw i'n sicr byddech chi'n gweld bod rhaid i chi gael aelodau newydd, aelodau brwdfrydig.

Mae'r bobl fydd yn achub ein cymdeithasau, ein cymunedau a'n hiaith yna yn eich dosbarth nos leol. Gwnewch yn siŵr bod chi'n dod i adnabod eich tiwtor lleol er mwyn i chi agor eich drysau i'ch dysgwyr. Os ydyn nhw yn ein cymunedau bydden nhw'n gwneud gwahaniaeth. Trefnwch fore coffi iddyn nhw yn rheolaidd a rhoi'r cyfle iddyn nhw ddod i'ch adnabod chi. Ni fyddwch yn difaru!

Rob Evans

## Newyddion Da a Newyddion Drwg

Peth braf ydy clywed newyddion da, a doedd yna ddim newyddion gwell ar derfyn 2021 na chlywed am y bwriad i ailagor Canolfan Meifod yn y dref hon.

Canolfan ar gyfer rhai ag anghenion arbennig ydy Meifod, ac fe gafodd ei chau yn sgîl cyfyngiadau'r pandemig erchyll sydd wedi amharu ar fywydau'r mwyafrif ohonom.

Creu dodrefn o safon ar gyfer yr ardd maen nhw yn y ganolfan gan roi cyfle a chefnogaeth gymdeithasol i'w gweithwyr.

Os nad ydach chi wedi prynu eu cynnyrch eich hunan, rydych yn sicr wedi'i weld mewn sawl man o amgylch Dinbych gan ryfeddu at ei wneuthuriad.

Ond yr hyn sydd yn bwysicach fyth am y ganolfan ydy'i bod hi wedi gosod pwrpas a phatrwm sefydlog i'r gweithwyr sydd yno, rhywbeth y mae pobl ag anghenion arbennig wirioneddol ei angen.

Fe fu yna lawer o sôn yn ystod y misoedd diwethaf am gyflwr meddwl pobl. Do, fe wnaeth yna lawer ohonom ni deimlo'n isel neu'n rhwystredig ar adegau, ond i bobl ag anghenion arbennig bu'r dryswch yn llawer gwaeth.

Rhyfeddol felly oedd clywed am fygythiad i gau Meifod neu o leiaf – yn ôl pob sôn- ail-strwythuro'r ganolfan. Onid ydy'r gwybodusion yn Neuadd y Sir wedi deall mai'r hyn sydd yn holl bwysig i rai ag anghenion arbennig ydy'r drefn maen nhw wedi hen arfer â hi?

..........................................

A ydach chi - fel fi – yn un garw am wylio'r bwletinau newyddion ar y teledu, hynny ydy yn y ddwy iaith? Mae'n dda o beth gweld ambell dro fod BBC Cymru wedi cael y blaen ar BBC Wales gyda stori arbennig wedi ymddangos yn y Gymraeg noson ynghynt nag yn Saesneg.

Yn yr un modd mae cael gafael ar Gymry Cymraeg mewn gwlad arall yn rhoi gogwydd arbennig i stori o dramor.

Ond mae BBC Wales yn achosi pryder imi. Ar adegau dydyn nhw ddim yn rhoi unrhyw sylw i faterion sydd â'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn gefndir iddyn nhw.

Ydyn nhw'n meddwl nad oes gan y di-Gymraeg unrhyw ddiddordeb yn y materion hyn? Os ydyn nhw, maen nhw'n gwneud cam â nhw.

..........................................

Diolch i'r drefn am Huw Edwards ddyweda' i. Fo oedd yr unig un o dîm newyddion y BBC yn Llundain a oedd yn gallu ynganu'r gair Arwen yn gywir.

Efallai pe bai'r storm wedi cael ei galw yn Aled y byddai'r gweddill wedi gallu gwneud cyfiawnder â'r enw. Wedi'r cyfan maen nhw'n gallu dweud enwau o Ffrainc, yr Eidal a'r Dwyrain Canol yn gywir on'd ydyn nhw......neu a ydyn nhw?

Ac o sôn am stormydd, os ydych chi'n berchen ar gyfrifiadur, chwiliwch am wybodaeth am Ynys Barra. Mae yna un ffaith diddorol am y lle fydd yn siwr o ennyn eich chwilfrydedd.

Stan Lyall

# Annest Gwynedd Jones o Gottenberg, Sweden



Rhyfedd o beth yw sylweddoli ei bod hi ychydig dros 10 mlynedd ers i mi gymryd y cam mawr o adael tref hyfryd Dinbych (fy nghartref) a throedio tua dinas fawr Llundain er mwyn astudio ar gyfer gradd mewn Ffasiwn ym Mhrifysgol Middlesex, Hendon.

Os dwi'n onest, penllanw blynyddoedd o freuddwydio oedd hynny, gan i mi osod fy mryd ar astudio fel dylunydd ffasiwn er pan oeddwn yn hogan fach. Yn ôl mam byddwn yn nodi'n aml 'Dwi'n mynd i fynd i Lundain er mwyn bod yn ddylunydd ffasiwn ac agor siop o'r enw 'Ani' ar Oxford Street'. Hawdd breuddwydio, ond prin y gallwn ddychmygu y byddwn yn llwyddo i gyflawni o leiaf rhan o'r freuddwyd honno maes o law.

Mwynheais fyw yn Llundain yn fawr iawn, iawn. Dinas fywiog, aml-ddiwylliant a llawn creadigrwydd a bywiogrwydd. O'r diwrnod cyntaf hwnnw pan gyrhaeddais lety'r myfyrwyr, gwyddwn fy mod wedi gwneud y penderfyniad iawn. Yno gwnes ffrindiau oes, gan gynnwys merch o Gymraes o Foncath, Sir Benfro oedd yn aros yn yr ystafell drws nesa! Rhyfedd o fyd!

Blynyddoedd heriol a hapus fu blynyddoedd prifysgol - blynyddoedd llawn cyfleoedd a heriau fu yn gymaint o ran o fy natblygiad fel person. Wedi graddio, dyma dreulio peth amser yn gweithio gyda dau Dŷ Dylunio yn creu 'graffeg tecstiliau' fel artist ar delerau profiad gwaith (Intern) gan fwyaf. Er wrth fy modd gyda'r gwaith a'r profiadau, doedd o ddim yn talu cyflog byw, yn enwedig felly ar delerau costau byw Llundain. Felly rhaid oedd chwilio am waith ychwanegol er mwyn tynnu dau ben llinyn ynghyd a hynny trwy weithio tu ôl i'r bar yn un o dafarndai cwmni 'Brew Dog.'

Rhyfedd sut mae bywyd yn eich gyrru ar lwybr annisgwyl weithiau, tydi! Er mwyn gweithio yn 'Brew Dog' (un o fragdai cwrw arbenigol 'Craft Beer' oedd yn tyfu mewn poblogrwydd) rhaid oedd dysgu am ddulliau bragu a chynhwysion amrywiol fathau o gwrw er mwyn gallu cynghori cwsmeriaid hynod o wybodus ddeuai i'r bar. Yn wir, mi roedd yna dipyn o waith dysgu, a chofio a deall cyn sefyll prawf er mwyn cael cynnig am swydd barhaol. Felly fu. Wyddwn i ddim cyn hynny bod cymaint i'w ddysgu am fyd bragu a chwrw. Yn syrpreis i mi – roeddwn yn dda yn y gwaith gan dreulio peth o fy amser yn cynnal sesiynau 'blasu' arbenigol gyda grwpiau o ymwelwyr a rhan yn dylunio arddangosfeydd ac eitemau marchnata (crysau T) a nosweithiau gwerthiant arbenigol i'r cwmni. Hyn oll, tra hefyd yn ceisio parhau i ddatblygu fy sgiliau celfyddydol a dylunio gyda'r Tai Tecstliau oedd yn gwerthu yn fyd eang.

O dipyn i beth dyma ennill hyder, gallu a gwybodaeth yn y byd bragu arbenigol gan gael cynnig swydd uwch fel cyd reolwr 'Moor Beer' yn Bermondsy, Llundain - uned newydd, oedd wedi ei sefydlu fel rhan o'r hyn a elwir yn 'Beer Mile' yn Llundain. Rhesi o unedau bwydydd a diodydd arbenigol dan fwa hen reilffordd. Ardal fywiog, llawn creadigrwydd ac uchelgais. Yno dysgais gymaint am redeg busnes, am sut i daro bargen ac am y byd lletygarwch. Cyfnod heriol, a newydd i mi mewn sawl ffordd ond cyfnod hefyd a'm harweiniodd maes o law i Gothenburg, Sweden.

Fel hyn y bu. Drws nesa i uned 'Moor Beer' roedd uned 'London Calling Sweden' - uned gweddol newydd a'r unig gwmni ym Mhrydain oedd yn mewnforio a gwerthu cwrw Swedeg 'Poppels'. Dyma ddechrau sgwrsio gyda'r perchennog, Ali – rhannu syniadau, datblygu gweledigaeth gytun ac ennill llawer o brofiad helaeth Ali fel gŵr busnes llwyddiannus oedd hefyd yn berchen bwyty yn Sweden (gwlad ei febyd). Wedi cyfnod, dyma dderbyn cynnig i symud a chyd-weithio gydag Ali yn rhedeg y busnes amser llawn. Datblygodd y busnes yn gyflym a llwyddiannus iawn gan ei fod dan ei sang bob penwythnos, a chan ddatblygu nosweithiau 'jazz' a chomedi poblogaidd, yn ogystal â phrynhawniau darlledu gemau chwaraeon ac ambell barti preifat. Datblygodd hefyd ein perthynas personol, gan benderfynu symud i fyw gyda'n gilydd mewn fflat braf ar lan yr Afon Tafwys nepell o Bont y Tŵr (Tower Bridge). Mi roedd bywyd yn dda, y busnes yn mynd o nerth i nerth a ninnau'n hapus ac yn ffynnu. Roedd hyd yn oed sôn am ehangu



ac edrych am leoliad ar gyfer agor ail uned a chyflogi mwy o staff er mwyn symud ymlaen. Roedd bywyd yn dda!
Yna digwyddodd mis Mawrth 2020 – pan newidiodd y byd i bawb a daeth y pandemig ar ein gwarthau. Ninnau, fel gymaint o fusnesau lletygarwch eraill yn gorfod cau ein drysau dros nos, heb unrhyw fath o sicrwydd pryd y byddem yn gallu ail agor, nac yn wir sut y byddem yn gallu cynnal ein hunain nac aelodau eraill y staff gan nad oedd unrhyw sicrwydd ariannol ar y pryd.
Rhaid cyfaddef, cyfnod anodd, ansicr oedd y rheini am sbel. Ond o dipyn i beth sylweddoli bod gennym hefyd lawer i fod yn ddiolchgar amdano. Mi roeddem yn iach ac yn hapus gyda'n gilydd. Felly dyma benderfynu defnyddio'n hegni a'n hamser i arall gyfeirio gan fynd ati i droi'r uned yn siop danteithfwyd a chwrw Swedeg a dechrau masnachu'n fyw ac fel siop arlein, a chael ein synnu ein bod yn derbyn ymateb reit dda. Bu'n gymorth mawr i'n cadw'n brysur ynghanol gymaint o ansicrwydd a phryder. Bu hynny'n fendith. Ond lle drud ydi Llundain i fyw ynddo ar y gorau, heb sôn am adeg pan nad oedd dim yn sicr. Y ddinas yr oedd y ddau ohonom mor hoff ohoni, wedi mynd yn le brawychus ac ansicr braidd. Felly dyma wneud penderfyniad. Symud! Cau'r drws ar y busnes am y tro, cael gwared o'r fflat a symud i Gothenburg, Sweden i fyw. Yno roedd bwyty oedd yn dal ar agor, yno roedd gan Ali fflat ar osod yn y ddinas (felly lle i fyw) ac yno roedd teulu, ffrindiau a chysylltiadau i ni allu dechrau eto. Yno roedd gennym obaith o allu goroesi'r cyfnod od, ansicr yr ydym i gyd wedi bod yn ceisio'n gorau i fyw trwyddo.
Bellach bûm yn byw yn Gothenburg ers mis Awst 2020. Mae'n ddinas braf a chroesawgar iawn. Erbyn hyn rydym wedi llwyddo i ail sefydlu, datblygu busnes aml-gangen newydd, adnewyddu ac agor bwyty newydd 'The Worker' a sefydlu unedau gwerthu coffi a chacen neu Fika (Cake and Brew) symudol ar gyfer sgwâr y marchnadoedd lleol. Mae bywyd yn dechrau sefydlogi – diolch byth! O ia, mi rydan ni hefyd wedi prynu tŷ ar gyrion y ddinas (sydd angen llawer iawn iawn o waith adnewyddu arno) ac wedi dyweddïo! Felly digon i'w wneud.
Rhyfedd ydy bywyd de! Ond o daflu eich hunain tu cefn i ddatrys problemau a gweld posibiliadau mewn sialensiau mewn modd creadigol ac egniol, credaf fod modd llwyddo a gwrthsefyll unrhyw sialens.
Erbyn i chi ddarllen hwn, byddwn wedi teithio'n ôl i Ddinbych i ddathlu'r 'Dolig (os bydd yr hen 'Covid' yn caniatau) a hynny am y tro cyntaf ers dwy flynedd. Mi fydd hi'n braf cael bod yn ôl.
Byddwn yn barod i gau'r drws ar 2021 ac edrych ymlaen tuag at 2022.
Yma yn Sweden mae'r dathliadau yn debyg iawn i rannau eraill y byd mewn gwirionedd – cyfarfod ffrindiau a theulu, parti, bwyd a thân gwyllt am hanner nos.
Ond mae ganddynt hefyd ambell draddodiad diddorol. Un yw bod pawb sydd yn y tŷ i fod i daflu un o'u hesgidiau allan trwy'r drws am hanner nos. Os yw eich esgid yn glanio yn wynebu drws y tŷ, gall hynny arwyddo eich bod un ai yn mynd i symud tŷ neu fod newid mawr ar y ffordd.
Traddodiad arall yw bod pwdin reis yn cael ei bobi gyda un gneuen almon wedi ei guddio yn ei ganol. Yn ôl y sôn mae'r person



sy'n darganfod yr almon i fod i dderbyn 12 mis o lwc dda.
Gwnewch rhywbeth i mi wnewch chi? Anfonwch pob ewyllys da i sicrhau y bydd fy esgid yn wynebu i ffwrdd o'r tþ a bod almon yn fy mhwdin ar fore'r flwyddyn newydd!! Mi allwn wneud gyda dipyn o lonyddwch am sbel o leia!
Dymunaf innau yr un modd i chithau. Dwi ddim yn un mawr am addewidion blwyddyn newydd – ond yn hytrach credaf mewn byw yn y funud a gwneud yn fawr o bob cyfle ddaw.
Pob dymuniad da i bawb, gan obeithio y daw llonyddwch a sefydlogrwydd i'r dyfodol i bob un ohonoch yn ystod 2022.
Blwyddyn Newydd Dda Iach a Hapus i chi i gyd.

Annest, Ali a Bermie (y Ci). X

cyngor sir ddinbych

Cynghorydd

**Mark John Young**



Dinbych Isaf - Annibynnol

**Symudol: 07825 912554**

www.sirddinbych.gov.uk

E:mark.young@sirddinbych.gov.uk

Gwefr heb Wifrau **AMGUEDDFA RADIO** Dilynwch ni ar flickr Cwmulus https://cwmulus.org/

Blwyddyn newydd dda i holl ddarllenwyr **Y Bigwn**!


## Digwyddiadau

Rydym yn hen gyfarwydd â chael gwylwyr o du allan i'r DU yn ymuno â'r gynulleidfa yn ein darlithiau, ond y tro hwn y siaradwr oedd o du allan i'r DU. Mae Dr. John Walsh yn Ddirprwy-Ddeon ym Mhrifysgol Cenedlaethol Iwerddon, Galway ac yn Uwch-Ddarlithydd yn y Wyddeleg. Un o'i arbenigeddau yw astudiaethau cyfryngau ac archifau, ac yn ei amser hamdden mae'n gyflwynydd radio lleol. Mae hefyd yn gyd-sylfaenydd Pirate.ie, archif ar-lein agored o recordiadau hanesyddol radio peirat yn Iwerddon, 1978-1988. Yn y ddegawd honno, cyrhaeddodd radio peirat Iwerddon uchafbwynt oherwydd bylchau yn y gyfraith ac anallu'r gwleidyddion i reoleiddio'r sector. Disgrifiodd John ddatblygiad a ffyniant y gorsafoedd peirat a chawsom wrando ar recordiadau o'r cyfnod, gan gynnwys recordiadau Leon Tipler o Kidderminster a deithioddd i ben Consti yn Aberystwyth yn 1982 yn unswydd i wrando ar y peirats ar draws Môr Iwerddon.



Llun o Aberystwyth a dynnwyd o ben Consti

Mae John yn honni bod y gorsafoedd peirat wedi bywiogi cymdeithas ddifflach Iwerddon ar y pryd a'u bod wedi cael dylanwad pellgyrhaeddol ar wleidyddiaeth, economi, cymdeithas, diwyllliant a thechnoleg y wlad.



## Profiad personol o'r radio


Rydym am wahodd pobl i gyfrannu eu hatgofion o wrando ar y radio dros y blynyddoedd. Barbara Crawford sy'n cychwyn:

Roedd y radio ymlaen yn y gegin drwy'r dydd pan oeddwn i'n fach, achos roedd Mam wrth ei bodd yn gwrando ar gerddoriaeth. Roedd ganddi radio mawr brown, rhywbeth tebyg i Melody Maker Cossor, ac roedd hi'n gwrando ar y 'Light Programme'. Dw i'n cofio 'Housewives' Choice' yn y bore, rhaglen Uncle Mac i blant ar fore Sadwrn a 'Family Favourites' amser cinio ddydd Sul. Dansette glas oedd ei radio yn y chwedegau a byddai'n hoffi diffodd y golau, a gwrando ar 'Friday Night is Music Night' a 'Semprini Serenade' yng ngolau'r tân.



Radio Dansette
yn yr Amgueddfa

Pan oedd fy chwaer, Non, yn ei harddegau prynodd dransistor am ryw £3, a gwrando ar Radio Luxembourg bob nos. Chwe mis oedd hyd gwarant y transistor ac ar ôl yr adeg hynny bu farw'r transistor - o orddefnydd yn fwy na thebyg! Cyn lansio Radio Cymru yn 1977, roedd nifer o raglenni Cymraeg ar Radio 4 yng Nghymru, gan gynnwys 'Helo Bobol' gyda Hywel Gwynfryn. Un tro, anfonodd Non gyfarchion penblwydd i mi ar y rhaglen ond dywedodd Hywel Gwynfryn, er mawr siom i ni, ein bod yn byw yn 'Aberporth' yn lle 'Aberarth'. Ond doedd dim siom pan drefnodd Non fod 92 o ddisgyblion Ysgol Penley yn ysgrifennu llythyron at Richard Rees ar raglen Sosban ar fore Sadwrn yn gofyn am record Gymraeg. Chwarae teg iddo, enwodd bob un ohonynt yn ystod y rhaglen, gan chwarae cân gan Edward H., ac anfonodd sticeri a bathodynnau atynt bob un.



Dyma gipyn ('pickup') SME 3012 ar gyfer chwaraewr recordiau o'r 70au hwyr, rhodd i'r Amgueddfa. Cynhyrchwyd y cipynnau yma gan y 'Small Model Equipment Company' oedd yn cynhyrchu cydrannau ar gyfer peirianneg model ers 1946. Dechreuon nhw gynhyrchu cipynnau yn y 50au hwyr, gan gynhyrchu nifer o wahanol fathau. Mae gan y cipyn yma getrisen Shure, a dyma'r math gorau mae arbenigwyr Hifi yn dewis ei ddefnyddio i chwarae recordiau finyl.

Y darlithiau nesaf


Dyma'r darlithiau ar-lein nesaf yn y gyfres, sy'n agored i bawb, ac yn cychwyn am 7.00 y.h. Ewch i wefan Cwmulus neu dudalen Facebook Gwefr heb Wifrau i gofrestru:

Ar Ionawr 21ain, 2022, bydd David Sprake, Uwch-ddarlithydd yn adran Beirianneg Adnewyddadwy a Chynaliadwy Prifysgol Glyndŵr, yn trafod Y Newid yn yr Hinsawdd a Sut mae ei Drwsio, yn Saesneg. Bydd yn amlinellu'r wyddoniaeth sy tu ôl i'r newid yn yr hinsawdd ac yn ystyried rhai o'r dulliau y gellir yn ymarferol eu defnyddio i liniaru ar y newidiadau a thrwsio'r hinsawdd. Bydd hefyd yn sôn am yr hyn sydd wedi bod yn rhwystro hyn rhag digwydd.

Ar Chwefror 18fed, bydd Dr. D. Ben Rees yn siarad am Porthladd Lerpwl – man geni iechyd cyhoeddus, yn Gymraeg. Tyfodd dinas Lerpwl yn gyflym iawn yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ynghyd â chyfoeth ei masnachwyr. Ar yr un pryd, roedd tlodi enbyd, gorboblogi a salwch, a bu farw miloedd o bobl o achos colera. Bydd Dr. Rees yn amlinelllu sut y brwydrodd Lerpwl yn erbyn y clefyd trwy ddefnyddio gwyddoniaeth, hylendid a dyfalbarhad. Yn ystod pandemig colera olaf y ganrif yn 1892, dim ond 4 o bobl o Lerpwl fu farw, o'u cymharu â 8,600 yn Hamburg.

Ymweld â'r Amgueddfa

Os ydych am ymweld â'r Amgueddfa yn ystod y gaeaf, cysylltwch â ni ar gwybod@gwefrhebwifrau.cymru i drefnu apwyntiad.




# Cymdeithas Caledfryn

Y siaradwr gwadd yng nghyfarfod Tachwedd o Gymdeithas Caledfryn oedd Eryl Roberts,Y Rhyl a'i destun oedd 'Y Sipsiwn Cymreig'. Bu Eryl yn Brifathro ar Ysgol Dyffryn Ial, Llandegla cyn ymddeol ac mae'n aelod o Gôr Meibion Trelawnyd.

Dywedodd bod ganddom fel cenedl ddyled fawr i'r Dr John Sampson am ei waith ymchwil i hanes y sipsiwn Cymreig. Roedd y Gwyddel wedi argraffu llyfr sef 'The Dialect of the Gypsies of Wales' sef astudiaeth o dafodiaith Romani-Gymreig disgynyddion Abram Wood. Cynhaliwyd angladd i Dr Sampson yn Nhachwedd 1931 ar Foel Goch uwchlaw Llangwm ac roedd hanes y digwyddiad ym mhapurau newydd cenedlaethol y cyfnod.

Roedd Abram Wood yn ffidlwr arbennig ond nid oedd yn delynor fel rhai o'i blant. Mae'r ymadrodd 'Teulu Abram Wood' yn gyfarwydd iawn ac roedd yn deulu mawr a rhai o'r disgynyddion mwyaf nodedig oedd Jeremeiah Wood neu Jeri Bach Gogerddan, John Wood Jones, John Roberts (telynor Cymru), Mathew Wood a fu'n byw yn ardal y Bala a Dic Turpin Wood oedd wrth gwrs wedi mopio ar ei arwr Dic Turpin.

Roedd rhai o'r merched hefyd yn adnabyddus fel Alabania Wood oedd yn ddawnswraig arbennig ac Elen Wood oedd yn gwneud swynion ac adrodd storïau. Roedd teulu'r Wood yn siarad Romani pur a gyda thraddodiadau unigryw ac yn amlwg wedi chwarae rhan bwysig iawn yn niwylliant Cymreig y cyfnod. Bu farw Abram Wood ar ochr y ffordd ger Llwyngwril yn 1799 pan yn gant oed ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys Llangelynnin.

Diolchwyd i Eryl gan Erfyl, Llywydd y noson a dywedodd ein bod wedi cael darlun llawn a diddorol o fywyd y sipsiwn Cymreig. Cafwyd cwestiynau ac atgofion difyr gan yr aelodau i ddiweddu'r cyfarfod.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Wener, Ionawr 28ain a'r siaradwr gwadd fydd Alun Williams yn rhoi sgwrs ar 'Natur trwy'r Tymhorau.' Ychwanegwyd bod nifer dda iawn wedi mynychu tri chyfarfod cyntaf y tymor a bod yna groeso cynnes i aelodau newydd.

Swyddogion y Tymor:

Llywydd: Rod Williams
Ysgrifennydd: Erfyl Williams
Trysorydd: Walter Roberts



Erfyl ac Eryl Roberts

# Ysgol Twm o'r Nant

Dyma ni wedi dod i derfyn blwyddyn arall yn Ysgol Twm o'r Nant, ac wrth i ni ysgrifennu hwn, mae pawb yn edrych ymlaen yn eiddgar at y Nadolig. Mwynhewch glywed am weithgareddau Nadoligaidd pob uned a gawn ni fel ysgol ddymuno Blwyddyn Newydd dda i bawb.








Ffarwelio gyda staff

Bydd dwy aelod o'r staff yn ffarwelio gyda ni ar ddiwedd y tymor sef Miss Carol Roberts a Mrs Meira Jones. Hoffwn fel cymuned yr ysgol ddymuno yn dda i'r ddwy.

Mae Miss Carol Roberts wedi gweithio yn Ysgol Twm o'r Nant ers 7 mlynedd bellach. Rydym yn dymuno yn dda iddi wrth iddi fynd i weithio fel gweithwraig cymorth gydag oedolion sydd yn dioddef o iechyd meddwl. Diolch iddi am ei gwaith yma.

Bydd colled fawr yn Ysgol Twm o'r Nant ar ôl Mrs Meira Jones. Mae Meira wedi bod yn aelod allweddol o dîm yr ysgol ers 41 o flynyddoedd bellach ac wedi dysgu cannoedd o ddisgyblion yn ystod ei gyrfa. Rydym yn diolch o galon iddi am sicrhau y gorau posib i bob un disgybl yn ei ffordd unigryw ei hun ac mae wedi bod yn bleser llwyr i ni gyd gyd-weithio gyda hi. Dwi'n siwr bydd gan lawer o ddarllenwyr y Bigwn atgofion melys o fod yn yr ardal tu allan yn gwneud gweithgareddau gyda hi! Rydym yn hyderus y bydd Mrs Meira Jones yn parhau i brofi'r un llwyddiannau a mwynhad yn ei hymddeoliad ac y gwnaeth yn ystod ei gyrfa yma yn Ysgol Twm o'r Nant.





Diolch yn fawr i Mrs Jones a gweddill staff y gegin am ginio Nadolig gwerthchweil! Roedd platiau pawb yn lân! Cawsom barti Nadolig gwych gyda gemau a llawer iawn o ddawnsio gydag ymweliad arbennig gan Sion Corn ei hun!




Uned dan 5

Wel dyna i chi hanner tymor prysur llawn hwyl a sbri dathliadau'r Nadolig. Cawsom ymweliad hudolus i Theatr Clwyd i weld cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr Iola o 'Llygoden Eira'. Diolch o galon i Theatr Clwyd. Cawsom amser bendigedig!







Rydym wedi bod yn brysur yn recordio ein sioe Nadolig, unwaith eto eleni.. Rydym yn rhannu ein gwaith gyda'r rhieni a theuluoedd.

Yn y dosbarth rydym wedi bod yn dysgu am stori'r Nadolig. Rydym hefyd wedi bod yn datblygu ein dealltwriaeth o rif/siâp drwy nifer o weithgareddau Nadoligaidd Mathemategol. Yn ogystal creu amrywiaeth o grefftau Nadoligaidd.

Ac yna daeth yr amser i ni ffarwelio gyda Mrs Meira Jones. Hoffwn ddiolch o galon am ei hymroddiad a'i gwaith dros y 41 mlynedd dwythaf! Ni fydd yr uned dan 5 byth yr un lle hebddi. Mae'r gofal a'r profiadau mae Mrs Meira Jones wedi eu rhoi i'r holl blant dros y blynyddoedd yn un amhrisiadwy! Diolch am eich brwdfrydedd a'ch gwaith rhagorol. Mae gan nifer iawn o blant ac oedolion bellach atgofion arbennig o Mrs Meira Jones. Diolch i chi am bopeth. Byddwn yn colli eich chwerthin a'ch gwên yn fawr iawn! Pob dymuniad da i chi yn eich ymddeoliad, Mrs Meira Jones!

Rydym yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi ac i holl deuluoedd yr uned dan 5. Gobeithio bydd Sion Corn yn hael unwaith eto eleni

<u>Uned dan 7</u>

Mae hwyl yr Ŵyl wedi llenwi dosbarthiadau'r Uned yn ystod yr wythnosau diwethaf. Cawsom sgwrs a stori ddifyr gan Mrs Mair Roberts yn trafod dathliadau'r Nadolig yn Ninbych dros y blynyddoedd.
Trafodwyd y newidiadau mewn teganau o'r gorffennol a'r presennol yn y gwaith dosbarth a chyflwyno gwaith Stori'r Geni arbennig.
Cafodd bisgedi Nadolig eu pobi, addurniadau eu creu ac fe gafodd y plant lu o brofiadau.







Mae'r plant wedi bod yn wych yn dysgu eu rhannau ar gyfer ein Sioe Nadolig a phob un ohonyn nhw wedi ymdrechu'n dda i gymryd rhan a mwynhau. Da iawn chi!
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.





<u>Uned dan 9</u>

Wel dyna fis prysur arall wedi gwibio heibio. Cawsom ddiwrnod 'Gwledydd y Byd' lle cafodd y plant wisgo fyny mewn dillad o wledydd gwahanol ac roedd llu o weithgareddau creu, blasu, arogli a bwyta bwyd o wledydd Ffrainc ac India a chawsant wneud pitsa Eidalaidd.






Daeth Mrs Jane Jones, cogyddes yr ysgol, atom i siarad am fwyta yn iach. Dysgodd y plant am y plât bwyd iach a chawsom gwis ar y diwedd.



Ar ddechrau ein dathliadau Nadolig cafodd criw o'r uned y fraint o gael mynd i ganu y tu allan i neuadd y dref fel rhan o ddathliadau troi goleuadau y dref ymlaen. Er bod hi yn fore gwlyb iawn, roedd pawb wedi mwynhau. Diolch i'r rhieni a ddaeth i wylio.
Mae 'r uned wedi creu fidio o sioe Nadolig rhithiol i'w yrru adref i rieni. Fe addaswyd stori y Nadolig o Fethlehem i Hawaii, gyda dawnswyr hula yn actio fel angylion, pysgotwyr oedd y bugeiliaid a 3 syrffiwr doeth oedd gennym ni. A wyddoch chi ble cafodd y baban Iesu ei eni…..mewn cwt ar y traeth! Braf oedd cymharu ein fersiwn ni gyda'r fersiwn wreiddiol a dysgu ambell i garol hwyliog.





Mae criw o blant wedi cael chwarae gêm a chael eu recordio ar gyfer rhaglen deledu fydd ar S4C Cyw yn y flwyddyn newydd. Cadwch lygad allan amdanyn nhw!

Cawsom ymweliad gan Dr Heledd Iago i sôn sut oeddem yn blasu bwydydd gwahanol. Roedd ei sgwrs yn ddifyr dros ben a'r plant wedi mwynhau yn fawr.



Cawsom fwynhau cinio Nadolig bendigedig yn yr ysgol a chael parti Nadolig gyda gemau a lot fawr o hwyl.




Wrth i mi ysgrifennu hwn, mae'r gliter ymhobman, a'r cardiau Nadolig , craceri a chalendrau yn cael eu creu. Mae'r uned wedi bod yn brysur yn coginio cacennau Nadolig bach i fyd adref i'w teuluoedd hefyd.

parhad tudalen 21

# O'r Llyfrgell

Ymddeolodd Janet o Lyfrgell Dinbych ar ddiwedd Rhagfyr 2021 ar ôl 17 mlynedd o weithio gyda Gwasanaeth Llyfrgelloedd Sir Ddinbych. Dechreuodd ei gyrfa yn y Llyfrgell yn hyfforddi yn Ninbych cyn derbyn swydd yn Llyfrgell Prestatyn. Bu am gyfnod yn Llyfrgell Llanelwy cyn dychwelyd i weithio yn Llyfrgell Dinbych.

Mae Janet wedi cynnig gwasanaeth ardderchog i bobl Dinbych a'r fro gyda gwên, bob amser yn gyfeillgar a chroesawus. Bu'n gyfrifol am drefnu deunydd darllen ar gyfer grwpiau darllen y llyfrgell ac am y stoc llyfrau llafar ynghyd â chyfrifoldebau eraill. Mae hefyd yn aelod gwerthfawr o grŵp darllen Sgwrs a Sangria. Byddwn yn colli ei chyfraniad. Dymuniadau gorau i Janet am ymddeoliad hir a hapus, digon o amser i ymlacio a darllen – cawn dy weld yn y llyfrgell yn fuan!

Cynnig eich llyfrgell ar gyfer 2022

Llyfrau i Blant. Helpwch eich plant i ddarganfod straeon gwych, gwybodaeth a rhannu llyfrau gyda'i gilydd ... mae gennym ni lyfrau bwrdd ar gyfer babanod, llyfrau lluniau, llyfrau stori, llyfrau gwybodaeth a mwy!

Dechrau Da

Bydd tîm Dechrau Da yn cynnal Amser Rhigwm i'r plant lleiaf yn y llyfrgell. Cysylltwch i gadw lle. Byddant hefyd yn fyw ar Facebook bob wythnos ac yn recordio sesiynau o rigymau a storïau ar eu sianel YouTube. Mae modd i deuluoedd gyda phlant 0-3 oed gasglu pecyn Dechrau Da am ddim o'r llyfrgell hefyd.

Gwasanaethau Llyfrgell

Mae'r Llyfrgell ar agor i chi ddod i mewn i bori am lyfrau, i ddefnyddio cyfrifiadur, llungopïo ac argraffu, neu i ddefnyddio'r Siop Un Alwad. Cawsom gyfrifiaduron newydd i'r cyhoedd ddiwedd y flwyddyn a dyfais printio hunan-wasanaeth sydd nawr yn derbyn taliad â cherdyn. Rydym yn dilyn canllawiau Covid-19 i gadw pawb yn ddiogel, ond fe fydd y croeso cynnes dal run fath ag erioed ac fe edrychwn ymlaen at eich gweld! Peidiwch â phoeni am ddirwyon, bydd eich llyfrau i gyd yn cael eu hadnewyddu'n awtomatig. Gallwch hefyd alw i gasglu pecynnau prawf llif unffordd.

Archebu a Chasglu Os nad ydych yn dymuno ymweld â'r llyfrgell, gallwch archebu llyfrau dros y ffôn neu ar-lein a threfnu i'w casglu. Mae Gwasanaeth Llyfrgell Cartref hefyd yn cynnig gwasanaeth yn uniongyrchol i'ch cartref. Cysylltwch â'ch llyfrgell am ragor o fanylion neu i archebu.

Llyfrgell Ddigidol Mae'r Llyfrgell Ddigidol yn hynod boblogaidd gyda channoedd yn lawrlwytho e-lyfrau ac e-lyfrau llafar o Borrowbox, a chylchgronau a phapurau newydd drwy PressReader ac ap Libby. Mae ein gwasanaeth ar-lein ar agor 24/7 ar gyfer lawrlwytho llyfrau digidol, llyfrau llafar, papurau newydd, cylchgronau a chomics. Y cyfan sydd ei angen yw eich cerdyn llyfrgell a PIN. Dewiswch o ystod eang o gylchgronau digidol poblogaidd gan gynnwys teitlau newydd ac ôl-restrau. Darllenwch bapurau newydd ar-lein, unrhyw bryd, unrhyw le, ar unrhyw ddyfais. Bydd Ancestry ar gael am ddim drwy ei ddefnyddio yn y llyfrgell o Ionawr 22.

Lansio Llyfrau Lleol Cafwyd lansiad arbennig yn y Llyfrgell yn Rhagfyr gyda'r awdur Clwyd Wynne o Ddinbych. Ysgrifennodd Clwyd am Seilam Dinbych yn ei gyfrol 'Victorian Asylum' yn adrodd hanes yr ysbyty yn yr oes Fictoraidd. Hefyd cyhoeddwyd llyfr ar golli milwyr ardal Dinbych yn y Rhyfel Byd Cyntaf yn y gyfrol 'For your Tomorrow, we gave our Today' gan Grŵp Archif Cymunedol Dinbych.

Sut i Gysylltu â Ni

Mae'r cyfan ar gael am ddim trwy wefan y Cyngor ac fe allwch ymaelodi ar-lein yma hefyd. Ar-lein - www.sirddinbych.gov.uk/llyfrgelloedd
E-bost: llyfrgell@sirddinbych.gov.uk
Ffôn - 01745 816313, edrychwch ar y dudalen we am ein horiau agor




Dafydd, Enys a Clwyd

## Gwefan Y Bigwn

Cofiwch am wefan y Bigwn gyda ôl-rifynnau ar ffurf dogfennau PDF. Mae'r rhifynnau digidol yn dal yno hefyd.

Mae hefyd modd defnyddio y wefan i gysylltu â'r Bigwn. Gobeithiwn ychwanegu cyfleusterau eraill megis calendr digwyddiadau ac ati cyn bo hir.

I gael mynediad i'r wefan ewch i www.ybigwn.cymru

## Ysgol Twm o'r Nant

Uned dan 11

Wel am flwyddyn! Rydan ni wedi dod i ddiwedd tymor a diwedd Thema Yr Ail Ryfel Byd yn yr Uned dan 11. Mae'r disgyblion wedi bod wrth eu boddau yn cael ymchwilio i hanes Dinbych yn ystod y rhyfel a darganfod hanesion personol am y Rhyfel.

Cawsom hefyd ymweliad gan PC Gareth yn trafod ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda'r uned ac roedd y disgyblion wrth eu bodd yn cael ymateb a holi.

Rydym wedi bod yn brysur iawn y tymor yma gyda ffilmio ein cynhyrchiad Dolig a chreu cacennau blasus iawn gyda Mrs Roberts, ac wrth gwrs y parti Dolig!

Rhywsut neu'i gilydd, ar ben bob dim, rydym wedi llwyddo i gael gêm rygbi gyfeillgar yn erbyn Ysgol Frongoch.

Ond, ac mae hon yn 'ond' fawr iawn. Bydd newid mawr ar fyd yn Ysgol Twm O'r Nant wrth weld Mrs Meira Jones yn ymddeol. Mae disgyblion a staff yr uned yn ddiolchgar iawn am ei gwaith caled ac yn dymuno ymddeoliad hapus iddi. Diolch yn fawr Mrs Meira!

# YSGOL GLAN CLWYD

Wrth i dymor cynta'r flwyddyn ddod i ben yn Ysgol Glan Clwyd a phawb yn edrych ymlaen at wyliau'r Nadolig, edrychwn yn ôl ar rai digwyddiadau a fu dros y tymor diwethaf.

Ein Cyngerdd Nadolig

Oherwydd amgylchiadau Covid nid oedd hi'n bosib cynnal Cyngerdd Nadolig. Roedd hyn yn newyddion torcalonnus gan fod yr Adran Gerdd yn barod wedi bod yn brysur yn paratoi eitemau ar gyfer y noson arbennig hon. Felly, penderfynwyd ei ffilmio gyda chwmni proffesiynol ar Ddydd Mercher a Dydd Iau y pymthegfed a'r unfed ar bymtheg o Ragfyr, yn barod i'w rannu ar YouTube ar Ddydd Sul y pedwerydd ar bymtheg o fis Rhagfyr fel fideo yn cynnwys rhai eitemau gan ddisgyblion a staff. Mor braf oedd cael mynd yn ôl i'r Gadeirlan i ffilmio eleni. Mawr obeithiwn y daw Dolig 2022 a phawb ynghŷd unwaith eto.

Diddordeb Digidol

Bu blwyddyn 8 a 9 yn brysur mewn gweithdai digidol Microbit a gynhaliwyd gan EESW . Roedden nhw wrth eu bodd yn rhaglennu robotiaid ac yn cael eu herio yn ddigidol. Edrychwn ymlaen yn arw at gael cynnal gweithdai tebyg yn nhymor y gwanwyn. Braf yw llongyfarch ein Pencampwyr Digidol - maen nhw wedi bod yn brysur ofnadwy yn eu gwersi yn cefnogi ac yn sicrhau fod sgiliau digidol disgyblion eraill yn cael eu datblygu yn ogystal.

Tripiau

Aeth ddisgyblion TGAU Drama a Lefel A Cymraeg ar drip i'r Galeri yng Nghaernarfon i weld y ddrama newydd 'Anfamol.' Roedd hyn yn brofiad gwych i ddisgyblion a staff ac yn wirioneddol wych i gael taith ac ychydig o normalrwydd.

Llwyddiannau Chwaraeon

Daeth tîm pêl-droed merched i'r brig yn ogystal â thîm pêl-rwyd blwyddyn 11 ac ennill yn erbyn Ysgol Uwchradd Y Rhyl. Fe wnaeth tîm blwyddyn 9 ennill 14-10 a thîm TGAU yn curo o 16-2 yn erbyn Ysgol Uwchradd Castell Alun. Llongyfarchiadau i dîm merched blwyddyn 7 ac 8 ar ennill gêm bêl-droed gyda sgôr wych o 6-5 yn erbyn Ysgol Castell Alun. Da iawn i dîm rygbi blwyddyn 8 ar gael sgôr cyfartal o 10-10 yn erbyn tîm Abergele. Llongyfarchiadau enfawr i Elis Martin o flwyddyn 8 a fu'n rhedeg 'mini marathon' yn Llundain. Mae nawr wedi cael ei ddewis i redeg dros Gymru.

Rydym yn hynod o falch o'n disgyblion llwyddiannus yma yn yr ysgol. Hoffem longyfarch Mathew Senior o flwyddyn 11 am ennill ysgoloriaeth pêl-droed yn Crewe Alexandra. Da iawn ti Mathew!

Mae Megan o flwyddyn 10 wedi arwyddo i glwb pêl droed Manceinion yn ddiweddar. Dymunwn yn dda i Megan yn y dyfodol a'i thalent pêl-droed arbennig.

Eisteddfod Genedlaethol y Ffermwyr Ifanc.

Fel ysgol roedden ni yn hynod falch o lwyddiant nifer o'n disgyblion yn Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc a gynhaliwyd ar ddiwedd mis Tachwedd. Braf oedd gweld ein disgyblion yn mwynhau perfformio ac yn ôl ar y llwyfan unwaith eto. Cafwyd llwyddiant yng nghystadleuaeth y sgets, parti llefaru, a'r gwaith Celf - dylunio poster.

Senedd Ieuenctid Cymru

Disgybl arall llwyddiannus yw Finley Mills o flwyddyn 12. Daeth yn aelod newydd Dyffryn Clwyd o'r Senedd Ieuenctid. Mae'n ddisgybl hynod frwdfrydig, yn barod i weithredu a gwireddu blaenoriaethau.

Codi arian ar gyfer elusenau.

Fel ysgol rydym yn falch o fod wedi codi symiau anhygoel ar gyfer elusennau amrywiol. Codwyd dros ddwy fil o bunnoedd ar ddiwrnod Plant Mewn Angen, a thros dair mil a hanner ar Ddiwrnod Ymwybyddiaeth Cancr.

## Colli aelod annwyl o deulu Ysgol Glan Clwyd

Tristwch mawr y tymor hwn yw i ni golli yn ddiweddar iawn aelod gwerthfawr ac annwyl o deulu Ysgol Glan Clwyd ; Alisha Hoyles. Er ei dewrder, fe gollodd Alisha ei brwydr greulon yn erbyn cancr a mawr yw ein hiraeth yn ddyddiol amdani.

'Wrth edrych fry i'r awyr
Ar noson dywyll ddu
Fe welwn seren ddisglair
Yn gwenu arnom ni'

Casglwyd dros £3500 gan ddisgyblion yr ysgol a rhoddwyd yr arian i elusen sy'n agos at ein calonnau sef Tŷ Gobaith. Elusen arbennig a fu'n cefnogi Alisha a'i theulu dros gyfnod tu hwnt o anodd, cyfnod na allwn wir ei ddirnad.

*Rhannwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda'r teulu.*




## Atebion Rhagfyr 2021

**Ar Draws :**
6. Retina
8. Swyddogol
9. Corn
10. Cymru
11. Twca
12. Mintys
14. Arogleuo
17. Camlas
19. Trawst
21. Chwarelwr
22. Petrol
24. Odyn
26. Bambi
27. Cais
28. Bydwraig
29. Indigo

**I Lawr :**
1. Sion
2. Carcus
3. Tyfu
4. Hollt
5. Bonclust
7. Eboni
8. Simnai
13. Tymor
15. Oer
16. Lawnt
17. Crwydryn
18. Ail
20. Crimog
22. Primin
23. Oriog
25. Niwl
26. Brat
27. Cadw

## CROESAIR IONAWR 2022




**Ar Draws :**
1. Chwil
6. Lleihau cyflymder
9. "Y wên na phyla ....."
10. Ardal yn ne-orllewin Cymru (3,6)
11. Lle i gadw pethau gwerthfawr
12. Mis cynta'r flwyddyn
15. Powdr ar gyfer golch
18. Yn dweud eto, hyd syrffed
19. Ail lythyren yr wyddor Roegaidd
22. Cyfansoddwr o'r Almaen
23. Rhy ddyfn i weld ei derfyn
25. Heb drugaredd
27. Rhwystr traffig
28. Tempo cerddorol araf iawn
29. Prif swyddfa

**I Lawr :**
1. Meibion a merched bychain
2. Rhagfyr 24 (6,5)
3. Hwyliog
4. Simsan
5. George o Fôn, chwaraewr rygbi
6. Eitem atodol o ddillad
7. Gwn neu gleddyf
8. Pleidiol i un farn mewn dadl
13. Yn ymwneud ag astudio olion hanesyddol
14. ".... ......, gwêl yn awr" (4,6)
17. Atseinio
18. Oriog a chyfnewidiol
20. Nid i lawr mewn croesair (2,5)
21. Ymadrodd sy'n cael ei ailadrodd yn aml
24. Rhwng pedwar a chwech
26. Hydrogen ac Ocsigen wedi cyfuno







# Aberth dynion ifanc o Ddinbych yn y Rhyfel Mawr




Lansio'r llyfr



Catrodau cyntaf ar y ffordd i Ffrainc yn 1914

Mae'r llyfr, 'For your Tomorrow we gave our Today' yn cofio aberth dros 150 o ddynion ifanc o Ddinbych gan gynnwys o leiaf 35 o Stryd Henllan a syrthiodd yn y Rhyfel Mawr.

Bu'r llyfr, a noddwyd gan gwmni Swayne Johnson, yn llafur cariad aelodau Grðp Archif Cymunedol Dinbych sydd wedi bod wrthi'n gwneud gwaith ymchwil i'r hanesion tu ôl i enwau'r milwyr na ddaeth yn ôl o'r Rhyfel Mawr.

Yn ôl yr hanesydd lleol, Clwyd Wynne, 'Fe laddwyd gymaint o Stryd Henllan, stryd dlotaf y dref ar y pryd, gan fod llawer o wŷr ifanc oddi yno wedi ymuno â'r achos er mwyn dianc o dlodi.

Roedd gan Stryd Henllan enw drwg o ran troseddau, potsian, meddwdod a thlodi er bod capel neu eglwys y naill ben i'r stryd a'r llall. Roedd llawer yn potsian er mwyn rhoi bwyd ar y bwrdd.'

Y cyntaf i farw yn y Rhyfel Mawr o Stryd Henllan oedd William Conway Williams a weithiai yn ffatri ganhwyllau Boaz Jones yn y dref. Roedd yn byw yn 94 Stryd Henllan efo'i wraig a thri o feibion. Cyrhaeddodd Ffrainc ym Medi 1914 a bu farw o'i glwyfau yn garcharor rhyfel yn Nhachwedd 1914 yn Tournes, Gogledd Ffrainc.

Deilliai'r syniad i gynhyrchu'r llyfr o waith gwirfoddolwyr Grŵp Archif Cymunedol Dinbych i gofio canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Mawr yn 2018. Ond canfuwyd gymaint o gamgymeriadau a gwallau yn y cofnodion fel bod rhaid diweddaru gwaith blaenorol. Darganfuwyd fod llawer o gofnodion swyddogol y Rhyfel Byd Cyntaf wedi eu dinistrio yn y Blits yn Llundain yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Ymddangosai enwau llawer o'r milwyr ar wahanol gofebau mewn capeli, eglwysi a chofgolofnau mewn pentrefi h.y. yr un enwau yn ymddangos sawl gwaith. Hefyd roedd camgymeriadau ynglŷn ag enwau rhai o'r dynion ifanc a gollwyd.

Dywed Lynette Viney-Passig, un o gyfarwyddwyr Cwmni Swayne Johnson, noddwyr y llyfr, 'Mae'r llyfr yn archif pwysig yn hanes a threftadaeth Dinbych ble cychwynnodd y cwmni 175 o flynyddoedd yn ôl. Byddwn wedi cynrychioli teuluoedd llawer o'r bechgyn sydd ar y rhestrau ac mi fuasai aelodau o staff Swayne Johnson wedi gwasanaethu yn y Rhyfel Mawr gyda hwy gan gynnwys mab un o sylfaenwyr y cwmni, y Cyrnol Roderic Swayne a enillodd y Groes Filitaraidd yn Fflandrys yn 1917.

Gwasanaethodd y Cyrnol Roderic Swayne ar y llinell flaen gyda dynion o'r dref fel Robert Royles, glanhawr simneiau a thad i chwech o blant ac yn aelod brwd o'r 'Mission' yn Stryd Henllan. Wythnosau cyn iddo farw dywedodd,'I had courage but now I have none. If you were here for half an hour I would ask you if you had courage. You have no concept of what it was like…..'

Ni chafodd help pan ddisgynnodd pelen ffrwydrol ar gwt cysgodi bregus lle'r oedd Robert a thri arall ar y pryd. Lladdwyd y pedwar yn syth.

Meddai Clwyd Wynne eto,'Roedd y mwyafrif o'r milwyr a laddwyd yn aelodau o'r Ffiwsilwyr Cymreig ond roedd eraill yn perthyn i gatrodau gwahanol gan gynnwys 12 pâr o frodyr.

Roedd adroddiadau o'u hangladdau a hanesion yn y Denbighshire Free Press a phapurau newydd eraill fel hanes gwraig oedd yn casglu tuag at Y Groes Goch pan glywodd fod ei gŵr wedi ei ladd yn y Rhyfel Mawr.

Hefyd bedyddiwyd geneth fechan yn 'France May' oherwydd fe laddwyd ei thad yn Ffrainc ym mis Mai.

Hi oedd un o 95 o blant na welodd erioed eu tadau.

Bu'n ymdrech fawr ar ran yr holl wirfoddolwyr ac rydym yn gobeithio y bydd y llyfr yn helpu pobol i werthfawrogi aberth sawl teulu yn y dref.

Rydym yn ddiolchgar i ddisgynyddion llawer o'r milwyr sydd wedi rhannu gwybodaeth, lluniau a memorabilia i'w cynnwys yn y llyfr. Hefyd diolch am gefnogaeth Cwmni Swayne Johnson, Cyngor Tref Dinbych, Mrs. A. Roberts, Grŵp Cynefin a Bara Henllan.'

Carol, gwraig Clwyd Wynne, a ddyluniodd glawr cefn y llyfr.

Cyhoeddwyd 'For your Tomorrow we gave our Today' gan Fineline Rhuthun ac aeth 500 copi ar werth am £14.95 diwrnod Marchnad Nadolig Dinbych.

Mae'r llyfr ar werth yn yr Amgueddfa, Lôn Goch, bob dydd Llun ac Iau, 2pm - 4pm neu galler ei dderbyn drwy'r post am bris ychwanegol drwy ebostio denbigharchive@gmail.com

(Geiriau a lluniau gan Gwmni Swayne Johnson)



Pared Recriwtio yn Ninbych 1914

# Marchnad Nadolig





Gwion Jones o Menter Iaith gyda Magi Ann

Grðp Archif Cymunedol Dinbych yn gwerthu 'For your Tomorrow we gave our Today' a 'Victorian Asylum'




Bwrdd Capel Pendref –Mary, Bethan, Sheila, Gwyn a Medwyn



Rebecca Bowcott a Dilwyn Jones o Dementia Gyfeillgar Dinbych



Dafydd Davies, Rhys a Lynn Thomas, Llyr Griffiths AC ac Amanda Shone-Williams



Ceri a Vera



John Sellers a oedd yn arweinydd ac yn diddanu





Plant yr ysgolion yn canu carolau





# Cais am help i ddarganfod aelodau cyntaf Urdd Gobaith Cymru

Wrth i fudiad ieuenctid mwyaf Cymru ddathlu ei benblwydd yn 100 oed yn 2022, mae'r Urdd yn chwilio am rai o'r aelodau cyntaf un.

Oeddech chi neu aelod o'r teulu yn aelod o'r Urdd yn yr 1920au, 1930au neu'r 1940au?

Mae dros 4 miliwn o blant a phobl ifanc wedi bod yn aelodau o'r Urdd ers y sefydlwyd yn 1922 gan Syr Ifan ab Owen Edwards. Dyma ambell ffaith i chi o'r gorffennol:

Sefydlwyd yr Adran gyntaf yn Nhreuddyn, Sir y Fflint yn 1922.

Cynhaliwyd yr Eisteddfod yr Urdd gyntaf yng Nghorwen yn 1929.

Cafodd Gwersyll Llangrannog ei sefydlu yn 1932 a Glan-llyn yn 1950

Crëwyd Mistar Urdd yn 1976

Beth yw eich atgofion chi? Helpwch ni i roi straeon ac atgofion yr Urdd ar gof a chadw ar gyfer y ganrif nesaf.

Cysylltwch â ni ar helo@urdd.org, 07976 330361
neu gallwch ymuno â'r grŵp Facebook
'Atgofion Aelodau'r Urdd' (www.facebook.com/Urdd100)
i rannu lluniau a hanesion difyr o unrhyw ddegawd.



Gwersyll yr Urdd Glan-llyn yn y dyddiau cynnar (1950)



Dyddiau cynnar Eisteddfod yr Urdd



Caban pren Gweryll yr Urdd Llangrannog

Digwyddiad Elusen y Maer
CABAR T
ar
22—1- 022
Neuadd , Dinbych
Drysau h. Tocyn £20
T ar gael ar wefan
https: ightowncouncil.gov.uk/cy/
n -a-digwyddiadau/cabaret
Siop Elfair / Siop Clwyd
Wedi ohirio am y pryd

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES
29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

CATalyst Systems - 01745 816611
enquiries@catsystems.co.uk
Cymraeg
Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)
Sganwyr llaw - Systemau CCTV
Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G
Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk
Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

# DYDDIAU CYNNAR URDD GOBAITH CYMRU

Wrth edrych ymlaen at ddathliadau penblwydd Yr Urdd yn 100 oed eleni, cofiais am lwyddiant fy nhad, David John Griffith, mewn dwy Eisteddfod, sef Eisteddfodau Cenedlaethol yr Urdd ym Machynlleth ym 1932 a Caerfyrddin ym 1935.




Bathodyn fy nhad

Cafodd Dad ei eni yn Llangefni ym 1917 a'i fagu (yr ail o ddwsin o blant) ym Mhensarn, Abergele. Wedi byw yn "Promenade Cottage" ar lan y môr am oddeutu deng mlynedd, symudodd y teulu i "Blaenau Cottage" ar Chapel Street, ble'r oedd deg o dai a Capel Bach y Presbyteriaid, dan ofal Mynydd Seion, Abergele. Roedd yn falch iawn mai iaith lafar y stryd oedd y Gymraeg a chofnododd ei atgofion am rai o gymeriadau'r stryd. Dyma ysgrifennodd am un o'r cymeriadau yn Awst 1994:

*"Bu Mr Rowlands y Ffariar yn ddylanwad mawr arna i, wrth iddo drefnu a chynnal cyfarfodydd Nos Sul yng Nghapel Bach, Pensarn, gyda gwersi ar y Beibil a hefyd wrth ein cyfarwyddo fel Cangen Min y Môr, Pensarn, o Urdd Gobaith Cymru.*
*Enillais mewn dwy 'Steddfod Genedlaethol efo casgliad o wahanol weiriau, gan ddangos yr enwau Cymraeg a Lladin, y fan lle cefais hyd iddynt, naddu a chreu bocs i'w dal o focs maragrîn gan ddefnyddio darnau o wydr i grafu'r print i ffwrdd ac wedyn ei smwddio.*
*Hyn i gyd dan ofal a llygad Mr Rowlands:*
*Casgliad o Lysieueg – Machynlleth 1932*
*Caerfyrddin 1935"*

Yn ogystal â thystysgrif, derbyniodd gopi o'r llyfr "Straeon y Gilfach Ddu" gan J.J. Williams fel gwobr yng Nghaerfyrddin.

*Nerys Davies*


58 "ER MWYN CYMRU."

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU, CAERFYRDDIN, 1935.

Gwobr Gyntaf

Cystadleuaeth Rhif: 111

David J. Griffith, Pensarn, y Rhyl

J. PARK DAVIES, S. B. JONES. Cadeiryddion.

E. H. GOODWIN, ERNEST EVANS. Ysgrifenyddion.

Gwobr Caerfyrddin 1935


EISTEDDFOD GENEDLAETHOL
URDD GOBAITH CYMRU
MACHYNLLETH

1932

HYN SYDD I ARWYDDO I
ENNILL CLOD AC ANRHYDEDD YR EISTEDDFOD
YN AM

GWASG GREGYNOG

Tystysgrif Machynlleth 1932


EISTEDDFOD GENEDLAETHOL
URDD GOBAITH CYMRU
CAERFYRDDIN
13-15 MEHEFIN 1935

HYN SYDD I ARWYDDO I David J Griffith O Pensarn
ENNILL CLOD AC ANRHYDEDD YR EISTEDDFOD
YN Gyntaf AM Lysieueg

GWASG GREGYNOG

Tystysgrif Caerfyrddin 1935





Tŷ Te a Delicatessen
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
deli@teynygrug.co.uk

01745 816576


| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 3 | 1 | | 9 | | 8 |
| | | | 4 | | | | | |
| | 3 | 6 | | | | | | 7 |
| | 6 | 7 | | 5 | | | 3 | 9 |
| 3 | | 8 | | | 9 | 7 | | 2 |
| 5 | 2 | | | 7 | | 4 | 1 | |
| 1 | | | | | | 5 | 8 | |
| | | | 1 | | 4 | | | |
| 7 | | 3 | | | 2 | | | |

# Arwyr pedwar olwyn



Fel Cymry, rydym yn hynod falch o'n chwaraewyr rygbi ac yn ddiweddar, pêl-droed hefyd. Ond ychydig rydym yn sôn am arwyr byd y pedwar olwyn. Cywilydd arnom mewn gwirionedd ac mor wahanol i'r Eidalwyr. Yn Elfyn Evans mae gennym un o yrrwyr rali gorau'r byd. Bu Elfyn o fewn dim o ennill y bencampwriaeth y ddwy flynedd diwethaf.

Fel plentyn, roedd hi'n arferol i mi golli diwrnod o'r ysgol pan oedd rali'r RAC yn dod i Glocaenog. Doedd dim angen nodyn i esbonio'r sefyllfa, gan fod athrawon Ysgol Twm o'r Nant yn hen gyfarwydd o fy angerdd tuag at geir. I fi, roedd enwau fel Mikkola, Blomqvist ac Eklund yn fwy enwog na Gareth Edwards, JPR Williams a Barry John. Hwyrach mai'r cyffro o sefyll am oriau yn y goedwig damp yn gwylio'r Lancia Fulvia a Stratos yn gwibio heibio sydd wrth wraidd fy hoffter o geir Eidaleg. Pwy a ŵyr? Un peth yr oeddwn yn ei wybod, hyd yn oed fel plentyn ifanc; oedd os oedd curo'r gyrrwyr rali o Sgandinafia yn anodd iawn yn yr RAC, roedd hi'n amhosib yn eu gwlad eu hunain. Yn y 70 mlynedd maent wedi cynnal y rali Mil o lynnoedd, dim ond chwe gyrrwr y tu allan i'r Ffindir a Sweden sydd wedi llwyddo. Y rheswm ydi'r 'yump' fel maent yn cael ei alw, sy'n golygu fod y car yn neidio am ddegau o fedrau yn yr awyr gyda choed (a gwylwyr) bob ochr. Mae angen dewrder anhygoel i lwyddo. Ychydig fisoedd yn ôl, dyna yn union wnaeth y Cymro o Ddolgellau, Elfyn Evans. Dipyn o gamp!



Person pwysig a fu yn cefnogi gyrfa Elfyn oedd Cymro arall, sef Richard Parry Jones a fu farw yn sydyn mis Ebrill diwethaf. O Fangor roedd o'n deillio ond fel prif beiriannydd rhyngwladol cwmni Ford mae'n cael ei gofio. I'r rhai ohonoch sydd wedi mwynhau gyrru Mondeo, Focus, Fiesta neu Ka, i Richard mae'r diolch. Ond mae ei ddylanwad yn ymestyn yn bellach na cheir Ford. Fo oedd yr ysbrydoliaeth i gannoedd o beiriannwyr dros y byd i gynllunio ceir oedd hefyd yn bleserus i'w gyrru. Mae sawl hanes amdano yn profi ceir newydd ar hyd ffordd Brenig fel petai yn y Ffindir. Mae colled ar ei ôl.

Dewi Rogers

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.

# CYMDEITHAS Y BIGWN

Mae darllenwyr Y Bigwn eisoes yn ymwybodol fod y gymdeithas uchod wedi dirwyn i ben am nifer o resymau fel nodwyd yn adroddiad Llifon yn y rhifyn olaf, yn ogystal â'r ffaith fod y banc mae'r Gymdeithas wedi ei ddefnyddio o'r cychwyn am godi £5 y mis (£60 y flwyddyn) am gael cyfrif yn y banc hwnnw.

Wrth hel atgofion yng nghyfarfod ola'r Gymdeithas ar Dachwedd 16eg (gweler Y Bigwn, Rhagfyr 2021) awgrymwyd ein bod yn cynnwys ychydig o'r hanes yn y rhifyn hwn, felly dyma rai o uchafbwyntiau'r Gymdeithas, ac rwy'n siŵr fod gan rai ohonoch atgofion a lluniau gwahanol. Beth am eu rhannu efo'n darllenwyr?

Yn dilyn sefydlu'r Gymdeithas yn ôl ym mis Ionawr 1989, gan gychwyn efo noson "Swper Sgwrs a Chân" yng nghwmni Dafydd Iwan ym Melin Brwcws, cafwyd amryw o nosweithiau hwyliog ymhlith llu o gefnogwyr ein papur lleol – Cawl a Chân, Swper a Dawns Werin, Helfa Drysor, Taith i Fanceinion, Camp Sgil a Rhemp, Noson yn Superbowl Y Rhyl, Rasus Hwyaid, Gyrfa Chwilod a mwy.

Difyr yw cael pori drwy ambell i rifyn o'r Bigwn yn chwilota am erthyglau, hysbysebion a lluniau i sbarduno'r cof.

Rasus Hwyaid a Swper oedd y noson gyntaf i mi drefnu fel un o'r swyddogion ac yn olaf, y nosweithiau Rhostio Mochyn. Bydd y rhai craff ohonoch yn sylwi gymaint o swpera sydd wedi bod!

Wrth gwrs mae pethau'n newid, ond mae'r gyfeillgarwch yn parhau a diolch i'r drefn am hynny. I derfynu, hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Bigwn a'r Gymdeithas, yn enwedig yn ystod y dyddiau cyntaf, gyda diolch arbennig i'r rhai gymerodd yr awenau fel swyddogion. Mae nifer ohonyn nhw, a wna'i ddim ceisio eu henwi i gyd rhag ofn i mi adael rhywun allan! Ond mae nhw'n gwybod pwy ydyn nhw!

*Nerys Davies*

Swper a Dawnsio Gwerin 1989



*Merched yn gweini yn y ddawns werin. Gwledd cyn dawnsio! - oedd hynny'n ddoeth deudwch?*



*Braf gweld pawb yn mynd i'r un cyfeiriad!*



Cefnogwyr y Ras Hwyaid 2008



Twmpath Dawns 2009

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*

**R.W.Roberts a'i Fab**

Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos

Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele

| | |
|---|---|
| **Gorffwysfa, Ffordd Ystrad,** | **Plas Tirion, Kinmel Avenue,** |
| **Dinbych, LL16 4RH** | **Abergele, LL22 7LW** |
| **Ffôn: 01745 812935** | **Ffôn: 01745 827777** |
| **Ffacs : 01745 817303** | **Ffacs : 01745 827750** |
| E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com | E: rwroberts.abergele@gmail.com |

**www.rwrobertsandson.co.uk**

Golden Charter Funeral Plans

National SAIF Independent Funeral Directors

# Dosbarth Cadw'n Heini B.A.C.E. Dinbych





Nerys Ann dw i a dw i'n aelod o'r grŵp Cadw'n Heini. Yn Ysgol Glan Clwyd mi ôn i wrth fy modd efo gymnasteg ac mi ôn i'n casau hoci a thraws gwlad sef rhedeg. Roedd pêl rwyd yn iawn. Pan es i i Goleg y Normal i wneud fy nhystysgrif ymarfer dysgu roedd yna athrawes addysg gorfforol lym ac yn mynnu fod Mair (merch Wil Sam) a fi yn neidio i mewn i'r pwll nofio er nad oeddem yn gallu nofio. Dw i'n ddiolchgar iawn iddi am hyn achos erbyn hyn dw i'n aelod o bwll nofio Dinbych ac yn ceisio mynd i nofio bob nos. Mae'n siwr bod rhai ohonoch yn cofio'r pwll nofio awyr agored ym Mhlas Brondyffryn. Mae'n rhaid fy mod yn mynd i'r pwll bas ond dw i'n cofio'r oxo poeth ar ôl dod allan!

Dw i wedi bod yn aelod o'r grŵp B.A.C.E ers tua pedair blynedd. Mae Peter yr arweinydd yn arbennig o dda ac mae'n gwneud y gwersi yn amrywiol ac yn ddiddorol. Yn yr Haf dan ni'n cyfarfod ar y cae pêl-droed yn ymyl y parc sglefrio. Roedden ni'n cyfarfod yn festri Capel Mawr yn ystod y Gaeaf ond erbyn hyn dan ni'n cyfarfod yng Nghapel Seion. Dw i'n hapus iawn o fod yng Nghapel Seion gan fod Dad wedi gweithio mor galed i droi'r capel yn ganolfan gymunedol. Dan ni'n cyfarfod yng Nghapel Seion am hanner awr wedi saith ar fore dydd Iau ac am hanner awr wedi wyth ar fore Sadwrn. Croeso i chi ddod i ymuno â ni.



Fy enw i ydy Sheila Pierce Craddock ac yn wreiddiol o Langefni, Ynys Môn ac wedi bod yn byw yn Ninbych ers 10 mlynedd ar ôl symud yn ôl i Ogledd Cymru o Gaerdydd. Ôn i eisiau gwneud rhywbeth i gadw'n heini a gwneud ffrindiau newydd ac felly ymunais â chlwb dechreuwyr clwb rhedeg Pete (B.A.C.E. Fitness) pedair blynedd yn ôl ac ers hynny, dw'i wedi cwblhau hanner marathon a llawer o rasys 5k/ 10k. Dw i hefyd yn mynd i Bootcamp ar fore dydd Sadwrn sydd yn llawn o hwyl a chadw'n heini ar yr un pryd. Roedd Pete hefyd yn arbennig o dda yn ystod y cyfnod clo yn darparu syniadau i'n cadw'n heini. Ers ymuno â B.A.C.E Fitness, dw i wedi gwneud llawer o ffrindiau da, y peth gorau wnes i.

Rachel Owen dw i a dw i'n bedwar deg pump oed ac yn byw yn Ninbych efo fy ngŵr a fy mab. Dw i'n gweithio i'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol fel ysgrifenyddes cynllunio corfforaethol. Dw i wedi bod yn mynychu dosbarthiadau B.A.C.E dros y blynyddoedd. Argymhellwyd y dosbarth i mi gan gymydog. Dw i wedi dechrau mynd i Bootcamp ar fore Sadwrn a dw i wrth fy modd. Mae cynnwys y wers yn newid ym mhob sesiwn ac yn sicr dwi'n dod oddi yno wedi gweithio'n galed. Mae'n grŵp cyfeillgar iawn a dw i wedi gwneud llawer o ffrindiau. Mae Pete yr arweinydd yn gefnogol iawn, yn llawn hiwmor ac mae'r sesiynau yn hwyliog. Buaswn yn argymell y dosbarthiadau i rywun sy awydd ymuno â dosbarth cadw'n heini.

Dyfan Glyn Roberts dw i ac mi wnes i gyfarfod Pete am y tro cyntaf pan oedd o'n Warden Traffig yn y Rhyl. Roeddwn yn siarad efo fo wrth gerdded o gwmpas Rhyl a dechreuais fynd i'r grŵp B.A.C.E. pedair blynedd yn ôl. Mae'r dosbarthiadau cadw'n heini yn llawer o hwyl ac yn grŵp cyfeillgar iawn. Mae rhai ohonom yn mynd i redeg hefyd

Peter Barraclough ydw i a dw i'n wreiddiol o Lanfair Talhaearn. Deg mlynedd yn ôl dechreuais redeg er mwyn colli pwysau. Dechreuais ddatblygu hoffter i gadw'n heini a phenderfynais gymhwyso fel hyfforddwr er mwyn helpu eraill. Mi wnes fy lefel 2 hyfforddwr ffitrwydd ac yna lefel 3 hyfforddwr personol. Dw i'n rhedeg amrywiol ddosbarthiadau ffitrwydd sy'n addas ar gyfer pob lefel o ddechreuwyr pur i rai profiadol. Yn fy nosbarthiadau dw i'n ceisio cael hwyl, chwarae gemau, rhoi sialensiau a chadw'n heini i gerddoriaeth. Mae'r dosbarthiadau yn fach ac rydym yn cefnogi ein gilydd. Mae'r oedran o'r arddegau i'r chwedegau. Bob mis byddwn yn cynnal gweithgareddau cymdeithasol fel taith gerdded a pheint. Os hoffech ymuno â'r dosbarth i gadw'n heini a chael hwyl, cysylltwch â fi Peter Barraclough ar y gweplyfr neu ebost Pbarraclough_38@hotmail.co.uk



Llion O'Callaghan ydw i. Dwi wedi bod yn aelod o grŵp BACE, ers ychydig dros flwyddyn, ac yn mwynhau'r amrywiaeth o ddosbarthiadau cadw'n heini, tu mewn a thu allan. Mae'n llawer haws rhedeg mewn grŵp, ac mae Pete yr hyfforddwr, yn dda iawn am annog pobol ymlaen a wastad yn llawn hwyl.

Yr wyf yn byw yn Rhewl ond yn wreiddiol o ardal Y Bala. Dwi'n gweithio yn Ysbyty Glan Clwyd fel technegydd electro biofeddygol.

Melanie Royles ydw i.
Mae dosbarthiadau BACE yn effeithiol ac yn hwyl. Ers dechrau'r dosbarthiadau mae fy lefel ffitrwydd wedi gwella'n fawr. Dw I'n edrych ymlaen bob wythnos at ganfod beth mae Pete wedi ei drefnu ar ein cyfer achos does dim dau ddosbarth yr un fath. Mi fuaswn yn sicr yn amgymell BACE I unrhyw un sy'n chwilio am ddosbarth cyfeillgar a hwyliog ac yn addas ar gyfer pob lefel o ffitrwydd.

Diolch i Nerys Ann ac aelodau BACE Dinbych (gol.)

# Dinbych yn Blodeuo

## Gardd Synhwyraidd

Lluniau ar dudalen 36

Mae'n siwr bod pawb wedi sylwi ar yr Ardd Synhwyraidd sydd wedi ymddangos ym Mharc Isaf yn y dref yn ddiweddar. Pwrpas Gerddi Synhwyraidd yw darparu lle i bobl o bob oed fynd i ymlacio ac elwa o eistedd yng nghanol byd natur. Mae'r planhigion a'r deunyddiau wedi cael eu dewis yn arbennig i ysgogi'r pum synnwyr ac hefyd i brocio cof pobl sy'n dioddef o dementia.

Mae Dinbych yn Blodeuo yn ddiolchgar iawn i nifer fawr o bobl a sefydliadau am eu cymorth a'u cefnogaeth yn y fentr: Y Cynllun Gerddi Cenedlaethol, Eich Cymuned Eich Dewis, Arbed am byth Cymru, Ymwybyddiaeth Dementia, Grŵp Cynefin a LiteGreen Cyf. am eu grantiau.

Diolch hefyd i Dementia Gyfeillgar Dinbych am brynu mainc ychwanegol ac i blant Ysgol Frongoch am blannu'r blodau. Diolch i Tara Dean a thrigolion Dolwen, Plas Eleri a Llys Meddyg am greu blodau Nad Â'n Angof (logo Dementia Gyfeillgar Dinbych) a'u gosod yn y planwyr.

Bodfari Environmental, o'r Ganolfan Sgiliau Coed ym Modfari, wnaeth yr adeiladu. Mae'n fwriad i osod mwy o feinciau o gwmpas yr Ardd Synhwyraidd ac i blannu planhigion sy'n dringo ar hyd y pren.



Y blodau a grëwyd gan drigolion Dolwen, Plas Eleri a Llys Meddyg.

# 'Men Who Sing'

Tybed fedrech chi nodi un dyddiad bythgofiadwy yn eich hanes? Dydd eich priodas efallai, neu ddydd derbyn gwobr am waith arbennig; ennill yn y Genedlaethol, neu ar y Loteri Genedlaethol! Fy nyddiad sbesial i ydi Mai 4, 2018 - sef dydd chwalu fy nghartref yn Nyserth lle bûm yn magu teulu ers y saithdegau, a symud i fwthyn bach clyd yma yn Ninbych. 'Down-seisio' hwnna ydi o! Tybed oes yna air Cymraeg? Tipyn o sioc ydi gweld eich gorffennol yn diflannu i mewn i lori fawr mewn bocsys. Mwy o sioc oedd penderfynu beth i'w wneud efo'r gweddillion. Ond mwy o sioc eto oedd ffeindio fod yna ddyn efo camera ar ei gefn yn eich dilyn chi i bob man ar eich teithiau llwythog rhwng y tŷ a'r lori! Wrth gwrs, paratoi ffilm ddogfen 'Men Who Sing' oedd, yn ceisio cyfleu yr awyrgylch hwyliog a'r cyfeillgarwch rhyfeddol sydd ym myd y corau meibion. Dyma oedd y dasg, gyda Chôr Meibion Trelawnyd i brofi'r pwynt.

Erbyn hyn, bron i bedair blynedd yn ddiweddarach, mae'r ffilm wedi ei rhyddhau ac wedi ennill llawer o sylw a gwobrau mewn Gwyliau Ffilm yng Ngwlad Belg, yn Israel ac yn UDA. Y sioc fwyaf oll oedd eistedd yn y sinema yn Theatr Clwyd yn ddiweddar a gwylio'r ffilm gyfan, a gweld eich hun fel y mae eraill, yn enwedig y camera didostur, yn eich gweld. Mater o falchder arbennig i mi yw mai fi gynhyrchodd y Cynhyrchydd sef fy mab ieuengaf, Dylan Clwyd.

Ednyfed Williams



Ffilmio



Dylan ac Ednyfed ←

Côr Trelawnyd ↙



# Grðp Cynefin yn adeiladu cymuned arbennig yng nghanol Dinbych

Gyda chynllun tai gofal ychwanegol Grŵp Cynefin yn Dinbych wedi ei gwblhau, mae staff y prosiect gwerth £12 miliwn yn edrych ymlaen at groesawu'r trigolion newydd yn y flwyddyn newydd.
Awel y Dyffryn yw prosiect mwyaf uchelgeisiol Grŵp Cynefin hyd yma, ac yn cynnwys 42 o fflatiau dwy ystafell wely a 24 fflat un ystafell wely ar gyfer pobl hŷn sydd eisiau byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, ond gyda gofal a chefnogaeth ar gael pe bai ei angen arnynt.
Dydd Iau (Ionawr 20fed) bydd cyfle i unrhyw un sydd â diddordeb yn y cynllun ar eu cyfer nhw, aelod o'u teulu neu ffrind ddod i weld y cyfleusterau. Os oes diddordeb, rhaid archebu slot amser trwy gysylltu â Grwp Cynefin ar post@grwpcynefin.org neu 0300 111 2122.
Mae Awel y Dyffryn yn ganlyniad cydweithredu rhwng Grŵp Cynefin a Chyngor Sir Dinbych, gyda'r contractwr lleol, R L Davies o Fae Colwyn, yn gyfrifol am yr adeiladu ar hen safle Ysgol Lôn Ganol yng nghanol tref Dinbych.
Mae'r adeilad wedi'i ddylunio o amgylch gerddi wedi'u



tirlunio, gydag ardaloedd braf ar gyfer cymdeithasu, salon trin gwallt, ystafell golchi dillad, bwyty a fflatiau modern cyfforddus y gall trigolion eu haddurno a'u dodrefnu at eu chwaeth eu hunain.
Dywedodd Noela Jones, Pennaeth Cymdogaethau Grŵp Cynefin: "Rydyn ni'n falch iawn o'n cynlluniau tai gofal ychwanegol. Nid yw cynlluniau tai gofal ychwanegol yr



un peth â chartrefi gofal. Yn lle, yr hyn rydyn ni'n ei gynnig yw fflatiau i un, i gwpl neu ddau o bobl greu cartref iddyn nhw eu hunain â'u drws ffrynt eu hunain ac annibyniaeth llwyr.
"Gall y trigolion fynd a dod fel y mynnant a rhyddid i ffrindiau a theulu ymweld yn ôl eu dymuniad. Mae yna hefyd ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol os ydyn nhw am gymryd rhan, ac mae cinio dyddiol yn y bwyty yn gyfle i ddal i fyny, cymdeithasu a mwynhau pryd maethlon."
Gyda'r rheolwr newydd Manon Jones yn ei lle, mae disgwyl i Awel y Dyffryn sefydlu ei hun fel canolbwynt bywiog yng nghymuned Dinbych, gyda gweithgareddau rheolaidd rhwng y preswylwyr a'r gymuned, ysgolion a chlybiau lleol.
Mae Manon yn awyddus i glywed gan bobl sydd â diddordeb mewn rhentu fflat yno iddyn nhw eu hunain, aelodau o'r teulu neu ffrindiau.
"Y peth pwysicaf os ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n elwa o fyw yn rhywle fel Awel y Dyffryn, yw gwneud cais," meddai. "Gallwn drafod unrhyw anghenion gofal, helpu gyda threfnu gwasanaethau a hefyd helpu i ddod o hyd i fudd-daliadau sydd ar gael os oes angen.
"Rydw i'n edrych ymlaen yn fawr at weld cymuned glos, fywiog yn ffynnu."
Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth Cyngor Sir Dinbych:
"Rydym yn hynod falch ein bod wedi gweithio mewn partneriaeth ar y prosiect pwysig hwn i'n trigolion gyda Grŵp Cynefin.
"Bydd Awel y Dyffryn yn darparu ystod o gyfleusterau a chefnogaeth a fydd yn helpu preswylwyr hŷn Sir Ddinbych i gynnal a gwella eu hannibyniaeth, tra hefyd yn cefnogi ein cymunedau i fod yn fwy gwydn.
"Rydyn ni'n edrych ymlaen at groesawu'r tenantiaid cyntaf i'w cartrefi newydd yn y flwyddyn newydd."
Dylai'r rhai sydd â diddordeb gysylltu â Grwp Cynefin ar post@grwpcynefin.org neu 0300 111 2122.
Mari Wiliams
Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata



**HUW VAUGHAN JONES**

**Arlunydd,Cartwnydd**

Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig.

**Cysylltwch â Huw ar**

**01745 812184**

CLWB RYGBI DINBYCH

Ar y 13eg o Dachwedd, 2021 dychwelodd y Tîm cyntaf yn ôl i'r cae am eu gêm gynghrair gyntaf ers Mis Mawrth, 2020. Marian Mawr, Dolgellau, oedd lleoliad y gêm lle rhoddodd Dinbych berfformiad amddiffynnol aruthrol i gyfyngu Dolgellau a fu'n dominyddu'r ornest am gyfnodau hir i un cais hwyr yn y gêm. Dangosodd Dinbych eu potensial i ymosod trwy sgorio tri chais i un Dolgellau gyda'r asgell dde Huw Mars-Jones yn sgorio dau gais a Dafydd Evans un. Fodd bynnag, o dan bwysau gan y tîm cartref, ildiodd Dinbych giciau cosb a hefyd chwarae chwarter y gêm gydag un chwaraewr yn llai oherwydd dau gerdyn melyn. Colli 20 – 15 oedd y canlyniad terfynol, gyda Dinbych yn ennill un pwynt bonws.

Ar y 27ain o Dachwedd, 2021 gyda wal gerrig a giatiau newydd i groesawu cefnogwyr, dychwelodd gemau cynghrair i Gaeau Les Phillips ar ôl seibiant o dros 21 mis wrth i Ddinbych groesawu eu hymwelwyr o Meifod, COBRA. Roedd ceisiau gan Aidyn Jones ac Elliot Davies ddim yn ddigon a chollwyd y gêm 26-12. Ar ôl colli eu dwy gêm gyntaf, teithiodd y tîm cyntaf i Fro Ffestiniog ar y 4ydd o Ragfyr, i weld os gallent gael y tymor nôl ar y trywydd iawn wrth ennill oddi cartref - camp heb ei helpu oherwydd amodau anodd yn gorfodi'r ddau dîm i ymdopi â gwynt cryf a glaw oer ar draws y cae. Er gwaethaf yr amodau, llwyddodd Dinbych i gael eu buddugoliaeth gyntaf o'r tymor trwy gais gan Robin Williams a dwy gic gosb gan Jordan Wynne i wneud y sgôr terfynol yn 11 – 0 i Ddinbych. Mi roedd llwyddiant Dinbych wedi ei adeiladu ar waith gwych y blaenwyr a oedd dan arweiniad y capten dros dro Lewys Eden ar y diwrnod.

Y gêm olaf i'r tîm cyntaf cyn y Nadolig ar yr 11eg o Ragfyr oedd yn erbyn yr hen elyn, ac yn anffodus, Rhuthun gymerodd yr anrhydeddau darbi ar faes Terry Bryer. Dechreuodd Dinbych yn dda wrth iddyn nhw ddominyddu meddiant yn y munudau agoriadol gan fynd trwy sawl cam o chwarae ond methu â thorri llinell amddiffyn Rhuthun. Yna hanner ffordd trwy'r hanner cyntaf, sgoriodd Dinbych gais yn dilyn nifer o rediadau unigol gan y blaenwyr yn ddwfn i 22 Rhuthun, yn arwain at y blaenasgellwr Dafydd Evans yn mynd drosodd am gais o dan y pyst a droswyd gan Gruff Roberts. Rhain oedd unig bwyntiau Dinbych yn y gêm, ac yn ymateb, sgoriodd Rhuthun bum cais i gyd, tri yn yr hanner cyntaf a dau yn yr ail hanner. Y sgôr terfynol 31 – 7 i Ruthun.

Doedd y sgôr ddim yn adlewyrchu'r gêm gystadleuol rhwng dau dîm ymroddedig.

Y gêm nesaf wedi ei threfnu ar yr 8fed o Ionawr 2022 yw gêm yn erbyn Llandudno sef y tîm ar ben y gynghrair ond mae'n hollol ddibynnol ar ganllawiau Llywodraeth Cymru i atal lledaeniad COVID-19.

Gruffudd Roberts




Emyr Evans a'i Gwmni Cyf

Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych 01745 812333





Stad Ddiwydiannol
Gaerwen
01248 421900

Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk

JCB M<sup></sup>Hale MASSEY FERGUSON FENDT PÖTTINGER



/gwasg.com [redacted]

ARGRAFFU
DYLUNIO GRAFFEG
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO

Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 | info@gwasg.com | www.gwasg.com
GwasgPrint

Mae Cynghrair Lock Stock Ardal Gogledd Orllewin yn profi i fod yn un hynod gystadleuol eleni gyda'r tîm sydd ar frig y tabl yn newid yn wythnosol. Ar ddechrau Rhagfyr, Dinbych oedd yn y safle cyntaf wedi buddugoliaeth o 3-1 yn erbyn Dyffryn Nantlle gyda goliau gan Jake Walker (2) a Jacob Barratt.

Eu gêm nesaf oedd gornest ar frig y gynghrair yn erbyn Mold Alexandra, oedd yn yr ail safle. Er i Ddinbych gael hanner cyntaf calonogol gyda nifer o gyfleoedd, 1-1 oedd hi erbyn diwedd yr hanner gyda Jake Walker yn penio'r bêl i gefn y rhwyd. O fewn 12 munud yn yr ail hanner, roedd Dinbych ar ei hôl hi o 4-1 a Mold Alexandra yn mynd ymlaen i gipio'r fuddugoliaeth. Maen nhw bellach dri phwynt ar y blaen i Ddinbych gyda hanner y tymor yn weddill.

Roedd gan Ddinbych hefyd gêm gwpan yn ystod y mis gyda gêm oddi cartref yn erbyn Llanuwchllyn yng Nghwpan Cynghrair Lock Stock Ardal Gogledd Orllewin. Gan fod cae Llanuwchllyn mewn cyflwr gwael yn dilyn y glaw trwm diweddar, chwaraewyd y gêm ym Maes Tegid, Y Bala.

Er y tywydd garw o law ac eirlaw, daeth Dinbych oddi yno'n fuddugoliaethus o 1-0 diolch i gôl hudolus gan Sam Jones wrth iddo gipio'r bêl gan gôl-geidwad Llanuwchllyn a chicio'r bêl dros ei ben i gefn y rhwyd.

Eu gwobr fydd gêm gartref yn erbyn Dyffryn Nantlle yn Central Park ar ddydd Sadwrn, Ionawr 8fed am 2:30. Pris mynediad fydd £4 i oedolion a £2 i gonsesiynwyr a phlant.

Mae'r Ail Dîm bellach dan reolaeth Gethin Jones gydag Ethan Jones yn ei gynorthwyo. Gêm gyntaf Jones gartref oedd yn erbyn Llanrwst lle aeth ei dîm ifanc i lawr i ddeg dyn wedi i James Thomas dderbyn cerdyn coch. Doedden nhw ddim yn gallu stopio tîm ymosodol Llanrwst a cholli oedd eu hanes yn y pen draw o 8-0.

Gwell oedd yr hanes wythnos yn ddiweddarach mewn gêm ddarbi leol yn erbyn Llanelwy wrth iddyn nhw gipio'r fuddugoliaeth o 5-3 gyda goliau gan Owen Heath (2), Harry Lea, Matthew Blake ac Aled Williams.

Mae Tîm Merched Dinbych yn parhau i ddangos brwdfrydedd er eu colledion trwm yn ddiweddar yng Nghynghrair Merched Adran Genero Gogledd Cymru dan reolaeth Ellen Lawson ac Aled Davies. Mae'r tîm bob amser yn edrych am chwaraewyr newydd ac os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch ag Ellen ar 07377 972919.

Wrth i ni symud i'r flwyddyn newydd, mae'r Clwb mewn safle hynod o gryf. Mae gennym gae chwarae arbennig, stand gyda 475 o seddi, llifoleuadau, Tŷ Clwb gyda bar trwyddedig a'r Caffi Coch sy'n gweini bwyd poeth ac oer. Yn ogystal â'r prif gae, mae gennym bedwar cae chwarae gerllaw ar gyfer y timau ieuenctid i'r bechgyn a'r merched.

Mae dros 350 o bobl yn rhan o'r Clwb gan gynnwys y chwaraewyr hŷn ac ifanc, y rheolwyr, yr hyfforddwyr a'r holl wirfoddolwyr.

Felly pam ddim dechrau 2022 wrth ymuno gyda'r clwb llwyddiannus hwn? Rydym bob amser yn edrych am wirfoddolwyr i helpu ar ddiwrnodau gêm a thu ôl i'r llenni yn ystod yr wythnos. Mae'n ffordd wych o gymdeithasu ac o gwrdd â phobl newydd. Mae rhai o'r swyddi diweddaraf yn cynnwys stiwardio, golygu rhaglen y dydd, gwaith cyfryngau a gwaith wrth y bar ac yn y gegin. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch ag Iwan Jones ar 07788 627819 am fwy o wybodaeth.



Rheolwr Tîm 1af CPD Dinbych – Dewi Llion Jones



Rheolwr cynorthwyol y Tîm 1af, Owain Roberts ac hyfforddwr y Tîm 1af, Brett Jones

# Nadolig Leah




Parti'r Gelli



Y cyflwynwyr: Celyn Cartwright a Steffan Hughes



Dylan Cernyw a Leah Owen



'Enfys'



Rhys Meredydd Evans—tudalen 11



Janet Evans—tudalen 21



Awel y Dyffryn—tudalen 32



Giatiau newydd a waliau newydd Clwb Rygbi Dinbych



Yr Ardd Synhwyraidd—tudalen 31



Y blodau a grëwyd gan drigolion Dolwen, Plas Eleri a Llys Meddyg. (Yr Ardd Synhwyraidd)



Y blodau a blannwyd gan ddisgyblion Ysgol Frongoch